Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru

Adroddiad ar ansawdd

Gwasanaethau Addysg Awdurdod Lleol Merthyr Tudful

Hydref 2009

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- gwasanaethau addysg awdurdod lleol (GAALl);
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan Yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

© Hawlfraint y Goron 2010: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cynnwys	Tudalen

Cyd-destun **1**

Cefndir i'r awdurdod lleol **3**

Crynodeb **6**

Argymhellion **11**

Canfyddiadau: Pa mor dda yw perfformiad yr awdurdod lleol ac a fydd y perfformiad yn gwella? **12**

Rheolaeth strategol 12
Cymorth ar gyfer gwella ysgolion 15
Hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a lles 18
Anghenion dysgu ychwanegol (ADY) 20
Mynediad a threfniadaeth ysgolion 23
Gwasanaethau cymorth 26

Ymateb yr awdurdod lleol i ganfyddiadau'r adroddiad **29**

Atodiad 1 Data perfformiad yr awdurdod lleol

Atodiad 2 Y proffil graddau

Atodiad 3 Y tîm arolygu

Cyd-destun

Yr arolygiad

1 Cynhelir arolygiadau o wasanaethau addysg awdurdodau lleol (ALl), o dan adran 38 Deddf Addysg 1997 a Deddf Plant 2004. Mae'r fframwaith arolygu ar gyfer y cylch hwn ar wefan Estyn www.estyn.co.uk.

2 Cynhaliwyd yr arolygiad rhwng 5 Hydref 2009 a 14 Hydref 2009. Ffocws yr adroddiad hwn yw'r gwasanaethau addysg a ddarperir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (yr awdurdod lleol). Cyn yr arolygiad, cynhaliodd yr awdurdod lleol adolygiad o'i wasanaethau addysg a lluniodd adroddiad hunanarfarnu fel rhan o'r broses honno.

Barnau allweddol

3 Mae'r tîm arolygu yn llunio dwy farn allweddol am bob gwasanaeth, sef:

(1) Pa mor dda yw perfformiad yr awdurdod lleol?

4 Caiff perfformiad yr awdurdod lleol wrth gyflawni ei gyfrifoldebau ei raddio ar raddfa pedwar pwynt fel a ganlyn:

Gradd 1 da gyda nodweddion rhagorol

Gradd 2 nodweddion da a dim diffygion pwysig

Gradd 3 nodweddion da yn gorbwyso diffygion

Gradd 4 diffygion mewn meysydd pwysig

(2) A fydd perfformiad yr awdurdod lleol yn gwella?

5 Caiff y rhagolygon ar gyfer gwella eu graddio ar raddfa pedwar pwynt fel a ganlyn:

Gradd 1 mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn dda, gyda gwelliannau sylweddol eisoes ar waith

Gradd 2 mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn dda, heb unrhyw rwystrau pwysig

Gradd 3 rhai rhagolygon da, ond rhwystrau mewn meysydd pwysig

Gradd 4 llawer o rwystrau pwysig at wella

Cwestiynau allweddol

6 Er mwyn llunio'r ddwy farn allweddol, mae arolygwyr yn arfarnu perfformiad yr awdurdod mewn perthynas â phob un o'r pedwar cwestiwn allweddol:

- Pa mor effeithiol yw cynllunio strategol yr awdurdod lleol?
- Pa mor effeithiol yw gwasanaethau'r awdurdod lleol?
- Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?
- Pa mor dda y mae'r arweinwyr a rheolwyr yn monitro, yn arfarnu ac yn gwella gwasanaethau?

7 Mae'r pedwar cwestiwn allweddol hwn a'r arfarniadau wedi'u hamlinellu yn yr adran ganfyddiadau. Maent wedi'u cofnodi fel graddau, gan ddefnyddio'r graddfeydd pedwar pwynt a amlinellir yn (1) a (2) uchod. Mae'r holl raddau wedi'u cynnwys yn y proffil graddio.

8 Mae adroddiadau Estyn yn dilyn ei arweiniad ar gyfer ysgrifennu a golygu adroddiadau, sydd ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk). Mae'r tabl isod yn dangos y termau y mae Estyn yn eu defnyddio a syniad bras o'u hystyr. Mae'r tabl er arweiniad yn unig.

Bron pob un	gydag ychydig iawn o eithriadau
Y rhan fwyaf	90% neu fwy
Llawer	70% neu fwy
Mwyafrif	dros 60%
Hanner/tua hanner	yn agos at 50%
Lleiafrif	islaw 40%
Rhai	islaw 20%
Ychydig iawn	llai na 10%

Cefndir i'r awdurdod lleol

9 Mae gan Ferthyr Tudful boblogaeth o tua 55,700 o bobl. Dyma'r boblogaeth isaf o'r awdurdodau unedol yng Nghymru ac mae wedi gostwng 100 ers 2004. Mae tua 9,600 o ddisgyblion yn mynychu ysgolion yr awdurdod. Mae ganddo'r ganran ail uchaf o ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yng Nghymru.

10 Mae gan Ferthyr Tudful 18,500 o blant a phobl ifanc o dan 25 oed. Mae cyfran y plant a phobl ifanc yn debyg i gyfartaledd Cymru, ond mae cyfanswm y boblogaeth wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf. Mae amcangyfrifon canol blwyddyn 2006 yr Ystadegau Gwladol yn dangos mai Merthyr Tudful yw'r unig awdurdod lleol sydd â phoblogaeth sy'n gostwng yn ei nifer, gyda'r cwymp mwyaf mewn poblogaeth ers Cyfrifiad 2001.

11 Adeg Cyfrifiad 2001, roedd 98.6% o'r boblogaeth wedi'u geni yn y Deyrnas Unedig. Daw nifer fach (605 neu 1.1%) o gyfanswm o 17 grŵp ethnig lleiafrifol ac mae ganddynt gefndiroedd rheoli neu broffesiynol yn bennaf, y rhan fwyaf ohonynt yn gysylltiedig ag Ysbyty Tywysog Siarl. Yn ogystal, bu mudo mewnol diweddar o Ewrop gyda newydd-ddyfodiaid yn niferoedd y plant i'r tair ysgol gynradd ffydd a'r un ysgol uwchradd ffydd. Mae gan ychydig o dan 18% o'r boblogaeth un neu fwy o fedrau Cymraeg, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

12 Mae Merthyr Tudful yn dioddef heriau economaidd-gymdeithasol sylweddol. Mae tri deg pump y cant o'r boblogaeth (19,000) yn byw mewn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is (ACEI) sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r disgwyliad oes 2.8% islaw'r cyfartaledd cenedlaethol a dyma'r isaf yng Nghymru. O'r boblogaeth oedolion, nid oes gan 44% ohonynt unrhyw gymwysterau o gwbl a dim ond 11.6% ohonynt sydd wedi cymhwyso hyd at lefel gradd, sef yr ail isaf yng Nghymru. Mae wyth y cant o'r boblogaeth oedran gweithio yn ddi-waith, sef y lefel bedwaredd uchaf yng Nghymru.

Strwythur gwleidyddol

13 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cynnwys 33 aelod etholedig o 11 adran etholiadol. Cafwyd newid yn yr arweinyddiaeth wleidyddol o ganlyniad i'r etholiad mwyaf diweddar, a gynhaliwyd ym mis Mai 2008. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn Gyngor a reolir yn Annibynnol, gyda 14 Cynghorydd Annibynnol, 10 Cynghorydd Llafur, pedwar cynghorydd o'r Democratiaid Rhyddfrydol, tri Chynghorydd Annibynnol Merthyr a dau Gynghorydd o Blaid Annibynnol y Deyrnas Unedig.

14 O'r 33 o Gynghorwyr, mae 10 yn ffurfio Cabinet sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob grŵp gwleidyddol. Mae'r pwyllgor hwn yn darparu fframwaith ac arweiniad polisi i'r Cyngor. Mae gan 10 aelod y Cabinet bortffolio adrannol penodol sy'n cyfateb i Gyfarwyddiaethau penodol. Mae'r Paneli Craffu gwahanol yn cyfateb i'r dull hwn, gyda chyfrifoldeb hefyd am gyfarwyddiaethau penodol.

15 Mae'r Aelod Cabinet Annibynnol sydd â phrif gyfrifoldeb Portffolio am Wasanaethau Plant Integredig yn gweithredu'n Brif Aelod statudol dros Wasanaethau Plant a Phobl Ifanc. Mae'r Aelod Cabinet Annibynnol â phrif gyfrifoldeb Portffolio am Wasanaethau Oedolion yn gweithredu fel pleidiwr y Cyngor dros oedolion a'r henoed.

Strwythur yr awdurdod lleol

16 Mae cyfrifoldeb rheoli dros y Cyngor yn gorwedd gyda'r Prif Weithredwr a'r Bwrdd Gweithredol. Mae aelodaeth y Bwrdd hwn yn cynnwys y Prif Weithredwr, y chwe Chyfarwyddwr ac Arweinydd y Cyngor. Mae gan Gyfarwyddwr y Gwasanaeth Plant Integredig gyfrifoldeb Prif Swyddog Addysg statudol ac mae hefyd yn gweithredu fel Prif Gyfarwyddwr dynodedig y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc. Mae'r Awdurdod yn rhannu cyfrifoldeb am Wasanaethau Addysg i Blant ac Oedolion rhwng y gwasanaethau plant ac oedolion, ac mae cyfrifoldeb am yr ail yn gorwedd gyda'r Gwasanaeth Oedolion Integredig. Mae trefniant tebyg yn bodoli ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion, gyda Chyfarwyddwr y Gwasanaeth Oedolion Integredig yn meddu ar gyfrifoldeb statudol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cyllid

17 Asesiad o Wariant Safonol (AWS)[1] 2009/2010 Llywodraeth Cynulliad Cymru fesul pen y boblogaeth ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw'r ail uchaf ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru ac mae 7.0% uwchlaw'r cyfartalog ar gyfer Cymru. Oddi mewn i hwn, £43.0m yw cyfanswm yr elfen addysg (yr Asesiad addysg wedi'i Seilio ar Ddangosyddion (ASDd)[2]). Mae hyn yn cynrychioli cyfartaledd o £4,668 i bob disgybl, sy'n agos at lefel gyfartalog yr ASDd fesul disgybl yng Nghymru (£4,661). Mae'r elfen addysg yn cynrychioli 43.9% o gyfanswm yr AWS, sydd ychydig uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 43.5%.

18 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gosod ei gyllideb 2009-2010 gyffredinol ar gyfer rheoli a chyflwyno'i wasanaethau ar lefel 4.0% uwchlaw'r AWS ond roedd y gyllideb addysg net[3] 2.2% islaw'r ASDd. Mae cyllideb addysg net y Cyngor wedi codi ychydig yn arafach na'r rhan fwyaf o gynghorau ers 2005-2006. Yn 2009-2010, mae'r gyllideb addysg net o £42.1 miliwn gyfwerth â £4,565 fesul disgybl, sef y pymthegfed uchaf o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

19 O 2004-2005 i 2007-2008, buddsoddodd yr awdurdod £14.1m mewn gwariant cyfalaf ar addysg. Mae hyn yn cynrychioli £1,460 y disgybl, sef yr unfed ar ddeg uchaf yng Nghymru. Yn 2009-2010, mae'r cyngor yn rhagweld y bydd yn gwario £7.3m o wariant cyfalaf ar addysg, gan gynrychioli £767 y disgybl, sef y swm trydydd uchaf fesul disgybl yng Nghymru.

Ysgolion a disgyblion

20 Mae Merthyr Tudful yn cynnal tair ysgol feithrin, dwy ysgol fabanod, dwy ysgol iau, 21 o ysgolion cynradd dilyniannol, pedair ysgol uwchradd (ystod oedran 11-18 oed), un ysgol arbennig a dwy uned cyfeirio disgyblion. Mae tair o'r ysgolion cynradd yn ysgolion Pabyddol gwirfoddol a gynorthwyir; felly hefyd un o'r ysgolion uwchradd.

21 Mae dwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Mae disgyblion sy'n dewis addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yn teithio i awdurdod cyfagos.

---

[1] AWS yw dull Llywodraeth Cynulliad Cymru o ddosbarthu Grant Cynnal Refeniw i awdurdodau lleol.
[2] Yr ASDd Addysg yw'r rhan honno o'r AWS sy'n ymwneud â chyflwyno gwasanaethau addysg. Ni fwriedir mai targed gwariant yw'r ASDd Addysg, ac mae awdurdodau lleol yn rhydd i wario ar lefelau uwchlaw neu islaw'r ASDd, yn unol â'u blaenoriaethau.
[3] Nid yw'r gyllideb addysg net yn cynnwys incwm o grantiau penodol.

Crynodeb

Gwasanaethau addysg awdurdod lleol

	Pa mor dda yw perfformiad yr awdurdod lleol?	A fydd perfformiad yr awdurdod lleol yn gwella?
Rheolaeth strategol	2	2
Cymorth ar gyfer gwella ysgolion	2	2
Hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a lles	2	2
Anghenion dysgu ychwanegol (ADY)	2	1
Mynediad a threfniadaeth ysgolion	2	2
Gwasanaethau cymorth	2	1

Rheolaeth strategol

22 Mae aelodau etholedig uwch ac uwch swyddogion y cyngor yn cynnig arweinyddiaeth strategol dda ac maent yn ymroi i wneud addysg yn flaenoriaeth. Mae'r ymrwymiad corfforaethol hwn yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer gwella cyrhaeddiad addysgol i blant, pobl ifanc a theuluoedd ym Merthyr Tudful.

23 Mae'r cyfarwyddwyr a'r swyddogion yn y Gwasanaeth Plant Integredig (GPI) a'r Gwasanaeth Oedolion Integredig (GOI) wedi sefydlu perthynas waith dda gyda phenaethiaid gyda lefel uchel o ymddiriedaeth, hyd yn oed lle bo anghytuno ar bolisi.

24 Ceir gwaith partneriaeth effeithiol iawn sy'n hyrwyddo blaenoriaethau addysg yn dda ac sy'n cyflwyno gwasanaethau drwy bartneriaethau statudol a gwaith ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill. Mae'r awdurdod yn ymgynghori'n effeithiol â phartneriaid, rhanddeiliaid a phobl ifanc.

25 Mae'r monitro cyllidebol a'r rheolaeth ariannol ar gyfer gwasanaethau addysg yn gadarn ar y cyfan. Mae'r awdurdod wedi datblygu llawer o gytundebau sy'n gwella'i allu ac yn cyfrannu at y gwerth am arian y mae'n ei gyflawni. Fodd bynnag, nid yw prosesau i arfarnu ansawdd, gwerth am arian, a'r gwerth ychwanegol a ddaw o bartneriaethau a grwpiau, wedi'u datblygu'n ddigonol ym mhob maes.

26 Mae aelodau etholedig a swyddogion yn gwneud defnydd da ar brosesau rheoli risg, ac yn cysylltu'r rhain yn dda â chynllunio gwasanaethau, rheoli cyllidebau a monitro perfformiad. Mae'r awdurdod yn defnyddio system daenlen y Cyngor i gofnodi cynnydd cynlluniau strategol a gweithredol. Fodd bynnag, mae gwendidau yn y ffordd y mae'r nodau mewn cynlluniau strategol yn cael eu trosi i'r system monitro a rheoli perfformiad. Mae'r rhain yn lleihau pa mor ddefnyddiol yw'r system o ran monitro'r cynnydd cyffredinol yn ôl amcanion cynlluniau strategol. Er hynny, mae cyfarwyddwyr ac uwch-swyddogion yn darparu adroddiadau helaeth a phriodol i aelodau etholedig.

27 Mae'r awdurdod wedi cyflwyno rhaglen gyfalaf o ad-drefnu ysgolion cynradd yn llwyddiannus, ond ar hyn o bryd nid oes ganddo unrhyw gynlluniau ffurfiol yn eu lle ar gyfer mwy o wariant cyfalaf i wneud ei holl ysgolion cynradd ac uwchradd yn addas at y diben.

28 Nid yw trefniadau craffu'r cyngor yn cynnig proses ddigon cyson i herio penderfyniadau'n effeithiol nac i gyfrannu at ddatblygiad polisi.

Cefnogaeth ar gyfer gwella ysgolion

29 Mae'r berthynas weithredol a phartneriaethau rhwng y Gwasanaeth Plant Integredig (GPI), y Gwasanaeth Oedolion Integredig (GOI) ac ysgolion yn dda iawn. Mae arweinwyr a rheolwyr yn gweithio'n agos gydag ysgolion i flaenoriaethu, cynllunio a chyflwyno ystod o fentrau gwella ysgolion. O ganlyniad, mae canlyniadau perfformiad ysgolion yn dda o ran y gwerth sy'n cael ei ychwanegu at gyrhaeddiad isel y mwyafrif o ddisgyblion adeg mynediad i'r system ysgol. Mae prosesau da ar waith i fonitro, herio a chefnogi ysgolion ac i ymyrryd mewn unrhyw ysgolion sy'n peri pryder.

30 Mae swyddogion yn sicrhau bod ysgolion yn meddu ar ystod eang o ddata da. Mae ymgynghorwyr yn rhoi cefnogaeth a hyfforddiant da er mwyn helpu i ysgolion ddefnyddio'r data hwn yn dda. Mae hyn yn cynnwys gwaith effeithiol gyda chyrff llywodraethol i godi eu hymwybyddiaeth o gryfderau a meysydd i'w datblygu. Mae'r rhaglen ymweliadau gwella ysgolion wedi'i chynllunio'n dda ac mae'r gwaith ar fonitro hunanarfarnu a chynllunio ysgolion ar gyfer datblygu yn dda. Mae cyfleoedd datblygu da i arweinwyr a rheolwyr a chymorth cynhwysfawr i lywodraethwyr trwy raglen hyfforddi wedi'i chynllunio'n dda.

31 Mae'r GPI yn cynnig ystod eang o hyfforddiant o ansawdd uchel i ysgolion drwy ei wasanaeth ymgynghorol, y Gwasanaeth Addysg a Gwella Ysgolion (ESIS), a rhaglen graidd Merthyr Tudful o hyfforddiant a datblygu. Mae penaethiaid yn ymwneud yn agos â'r broses gynllunio ac mae trefniadau'n mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn dda. Er bod hyfforddiant a mentrau'n cael eu harfarnu, nid yw arfarniadau'n canolbwyntio'n gyson ar feini prawf llwyddiant cytûn er mwyn nodi'r effaith ar gyflawniad disgyblion. Mae hyn yn golygu na all yr awdurdod asesu'n gywir pa hyfforddiant neu fentrau sy'n cael yr effaith fwyaf ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion.

32 Mae cefnogaeth dda ar gyfer y rhan fwyaf o feysydd y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae'r gefnogaeth ar gyfer Cymraeg ail iaith ar lefel uwchradd ac ar gyfer dwyieithrwydd yng nghyfnod allweddol 2 ac ar lefel uwchradd wedi'i than-ddatblygu. Mae cefnogaeth dda ar gyfer datblygiad medrau sylfaenol disgyblion, yn enwedig mewn darllen. Mae cefnogaeth o ansawdd uchel ar gyfer rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith. Mae'r rhwydwaith 14 i 19 oed yn gwneud cynnydd da wrth ehangu dewis a chyfleoedd i ddisgyblion.

33 Mae trefniadau pontio wedi'u datblygu'n dda ar draws pob cyfnod allweddol. Mae swyddogion ac ymgynghorwyr yn gweithio'n agos gydag ysgolion i sicrhau y bu gwelliant yng nghywirdeb asesiadau'r cwricwlwm cenedlaethol. Mae'r cysylltiadau pontio gydag awdurdod cyfagos ar gyfer disgyblion Cymraeg iaith gyntaf yn datblygu'n dda.

34 Mae'r GPI yn hyrwyddo lles yn llwyddiannus. Mae'r fenter addysg gorfforol a chwaraeon ysgol (AGChY) yn cyflawni canlyniadau rhagorol i ddisgyblion. Mae strategaethau ysgolion bro yn hyrwyddo ymgysylltiad gwell rhwng ysgolion a'u cymunedau yn llwyddiannus.

Hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a lles

35 Mae cynhwysiad cymdeithasol yn flaenoriaeth uchel i'r cyngor. Mae gwaith partneriaeth a gwaith amlasiantaeth cadarn yn cynnig ystod o wasanaethau a mentrau o ansawdd da. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed yn dda ac mae polisïau a gweithdrefnau effeithiol i wella'u cyrhaeddiad a'u lles.

36 Mae GPI a GOI yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i sicrhau bodloni cyfrifoldebau'r awdurdod fel rhiant corfforaethol. Mae cyrhaeddiad Plant sy'n Derbyn Gofal yn gwella'n gyson a derbyniodd pob plentyn sy'n derbyn gofal gymhwyster cydnabyddedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 yn 2009.

37 Mae gan y GPI bolisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith i amddiffyn plant. Mae pob aelod staff a gwirfoddolwr sy'n gweithio gyda phlant yn ymgymryd â hyfforddiant priodol. Mae'r BDPLl yn sicrhau hyfforddiant rhyngasiantaeth o ansawdd da ar gyfer yr holl staff uwch dynodedig mewn ysgolion er mwyn diweddaru eu gwybodaeth a'u medrau.

38 Mae'r awdurdod wedi nodi bod presenoldeb yn risg allweddol. Mae'r strategaeth a roddwyd ar waith wedi cael effaith sylweddol ac mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi gwella 1.8 pwynt canran rhwng 2006 a 2009. Fodd bynnag, mae'r gwelliant mewn ysgolion cynradd wedi bod yn arafach.

39 Mae cyfradd y gwaharddiadau parhaol mewn ysgolion uwchradd er 2006 yn isel o'i chymharu â Chymru gyfan. Ni fu unrhyw waharddiadau parhaol yn y sector cynradd ers 2006. Fodd bynnag, mae cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol o ysgolion uwchradd yn cynyddu. Caiff y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd wedi'u gwahardd ac ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol ei chydlynu'n brydlon ac yn effeithiol drwy drefniadau llywio a chlirio'r awdurdod.

Anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

40 Mae timau ac ymgynghorwyr arbenigol yn rhoi cefnogaeth dda i blant a phobl ifanc unigol, eu teuluoedd a'u hysgolion. Maent yn gweithio'n agos gydag ysgolion i godi safonau ac i hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol disgyblion sydd ag anawsterau corfforol a dysgu. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o ran safonau, dysgu ac ymddygiad.

41 Mae'r cydweithio ansawdd uchel iawn rhwng swyddogion yn y GPI, y GOI a phartneriaid perthnasol eraill yn gwneud cyfraniad pwysig at ansawdd da'r gwasanaeth.

42 Mae seicolegwyr addysg a phlant yn rhoi cyngor a chefnogaeth dda i ddisgyblion, rhieni ac ysgolion. Mae lefel ac ansawdd y gwasanaeth hwn wedi gwella llawer dros y blynyddoedd diwethaf, yn bennaf oherwydd y trefniadau effeithiol iawn ar gyfer y gwasanaeth seicoleg addysg a phlant ar y cyd ag awdurdod cyfagos.

43 Trwy amrywiaeth o ddulliau, mae'r awdurdod yn monitro'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag ADY yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddiadau gofalus iawn o'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn adroddiadau arolygiadau ysgol Estyn, a chynnydd y disgyblion hyn.

44 Mae'r awdurdod yn casglu ystod eang o ddata ar ddarpariaeth ADY, cyllid ysgol ar gyfer ADY a chynnydd a chyflawniad disgyblion. Mae swyddogion yn defnyddio hwn i fonitro disgyblion unigol ac agweddau ar waith ysgolion gyda disgyblion sydd ag ADY. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod yn defnyddio data'n ddigon da i goladu a dadansoddi gwybodaeth am effaith y ddarpariaeth ar gyflawniad grwpiau penodol o ddisgyblion ADY.

Mynediad a threfniadaeth ysgolion

45 Bu'r awdurdod yn effeithiol wrth ostwng nifer y lleoedd ysgol gynradd, ond mae angen iddo lunio'i gynlluniau'n derfynol i ostwng nifer y lleoedd gwag sy'n cael eu rhagweld mewn ysgolion uwchradd.

46 Mae'r awdurdod wedi ymroi i sicrhau bod ei holl adeiladau ysgol yn addas at eu diben erbyn 2016. Mae angen cynnal buddsoddiad mewn adeiladau ysgol, ond mae mwy o gynnydd yn ddibynnol ar yr awdurdod yn cael y cyllid cyfalaf angenrheidiol.

47 Mae gan yr awdurdod systemau tryloyw ar gyfer casglu data am leoedd ysgol a chyflwr adeiladau ac mae'n gwneud defnydd da ar hwn i lywio'i gynigion a'i gynlluniau ar gyfer datblygu ysgolion.

48 Mae'r gweithdrefnau derbyn yn dda ond nid yw'r Fforwm Derbyniadau'n rhoi digon o arweiniad a chymorth effeithiol i randdeiliaid.

49 Mae trefniadau'r awdurdod ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol yn dda ar y cyfan ac mae ysgolion yn eu parchu. Mae'r polisi cludiant o'r cartref i'r ysgol yn glir ac yn fwy hael na'r hyn sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

50 Mae ansawdd darpariaeth y blynyddoedd cynnar yn dda. Mae'r awdurdod yn rhoi hyfforddiant a sicrwydd ansawdd effeithiol ar yr agwedd hon ar ei waith.

Gwasanaethau cymorth

51 Mae'r berthynas rhwng penaethiaid, llywodraethwyr ysgol a'r awdurdod lleol yn rhagorol. Mae lefel uchel iawn o gydweithredu ac ymglymiad, sy'n arwain at ystod o ganlyniadau da.

52 Mae'r gwasanaethau cymorth ar gyfer ysgolion yn dda. Bu gwelliant sylweddol rhwng 2003 a 2009 yn y radd ar gyfer y gwasanaethau hyn gan y gyfradd uchel iawn o ysgolion a wnaeth ymateb i arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o ganfyddiadau ysgolion. Mae'r awdurdod lleol a'r grwpiau rhanddeiliaid yn monitro'r gwasanaethau hyn yn dda.

53 Mae'r awdurdod lleol yn cynnig gwasanaethau i ysgolion mewn cytundebau lefel gwasanaeth (CLGau) manwl iawn, lle gall ysgolion bennu'n union pa wasanaethau y maent yn talu amdanynt.

54 Mae'r awdurdod lleol wedi gwella'r gwasanaethau cymorth y mae'n eu cynnig i ysgolion yn fawr. Mae pob un o'r gwasanaethau hyn bellach yn dda.

Argymhellion

55 Er mwyn adeiladu ar y gwaith da presennol, dylai'r awdurdod:

A1 wella gwaith monitro a rheoli perfformiad drwy:

- sicrhau mwy o gydlyniad rhwng cynlluniau strategol a systemau monitro perfformiad; a
- sefydlu prosesau cliriach ar gyfer arfarnu ansawdd a gwerth am arian;

A2 datblygu cynlluniau i ymateb i'r gofynion cyllid cyfalaf asesedig er mwyn sicrhau bod ysgolion yn addas at eu diben;

A3 sefydlu systemau priodol i fonitro, coladu a dadansoddi cyrhaeddiad, cyflawniad a chynnydd pob grŵp o blant sy'n agored i niwed; a

A4 gwella'r trefniadau craffu a goruchwylio fel eu bod yn adolygu penderfyniadau'n fwy trylwyr ac yn cynorthwyo'r awdurdod yn fwy effeithiol wrth ddatblygu polisi.

Canfyddiadau: Pa mor dda yw perfformiad yr awdurdod lleol ac a fydd y perfformiad yn gwella?

Rheolaeth strategol

Perfformiad

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Rhagolygon ar gyfer gwella

Gradd 2: Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn dda, heb unrhyw rwystrau pwysig

Arweinyddiaeth a'r berthynas ag ysgolion

56 Mae nodau lefel uchel yr awdurdod ar gyfer addysg a dysgu gydol oes wedi'u cyflwyno'n glir yn ei gynlluniau a strategaethau. Mae'r Strategaeth Gymunedol yn cynnwys y thema 'Ymlaen trwy Ddysgu' sy'n cael ei adlewyrchu yng Nghynllun Corfforaethol 2009-2012. Mae'r thema hon yn cynnwys blaenoriaethau ar gyfer gwella cyrhaeddiad ac ymglymiad mewn addysg a lleihau nifer y lleoedd gwag. Mae Cynllun Plant a Phobl Ifanc 2008-2011 yn adlewyrchu'r thema hon hefyd er bod ganddo grŵp ehangach o nodau. Mae'r ymrwymiad hwn i wella addysg yn cynnig y sbardun angenrheidiol ar gyfer gwella.

57 Mae uwch-aelodau etholedig ac uwch-swyddogion y Cyngor yn cynnig arweinyddiaeth strategol dda ac maent wedi ymrwymo i roi blaenoriaeth i addysg. Mae'r ymrwymiad corfforaethol hwn yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer gwella cyrhaeddiad addysgol i blant, pobl ifanc a theuluoedd ym Merthyr Tudful.

58 Mae'r cyfarwyddwyr a'r swyddogion yn y Gwasanaeth Plant Integredig (GPI) a'r Gwasanaeth Oedolion Integredig (GOI) wedi sefydlu perthynas waith dda gyda phenaethiaid, gyda lefel uchel o ymddiriedaeth, hyd yn oed lle ceir anghytundeb ar bolisi. Mae hyn yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer mynd i'r afael â materion heriol. Mae gan aelodau etholedig a swyddogion hanes llwyddiannus o wneud penderfyniadau anodd fel cau ac uno ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd, ac yn ddiweddar, maent wedi cytuno ar yr egwyddorion cychwynnol ar gyfer y newidiadau i addysg ôl-16.

59 Mae'r berthynas dda rhwng ysgolion a'r awdurdod yn cael ei hadlewyrchu yng nghanlyniadau cadarnhaol iawn yr arolwg o ganfyddiadau ysgol a gynhaliwyd ar ran Swyddfa Archwilio Cymru yn 2009 (arolwg SAC 2009). Cwblhaodd naw deg pump y cant o ysgolion y Fwrdeistref Sirol yr arolwg a gosododd eu canfyddiadau nhw yr awdurdod yn chwarter uchaf yr ymatebion ar gyfer 19 o'r 20 cwestiwn ar agweddau ar reolaeth strategol.

60 Mae cyfarwyddwr GPI a GOI wedi rhoi trefniadau rheoli traws-gyfarwyddiaeth cynhwysfawr ar waith. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys cyfarfodydd effeithiol ar bob lefel rheoli.

61 Mae'r awdurdod lleol wedi nodi bod ansefydlogrwydd gwleidyddol yn risg allweddol i welliant parhaus ei wasanaethau. Mae'n cynnig newidiadau i'r strwythur rheoli gwleidyddol er mwyn mynd i'r afael â hyn. Mae'r awdurdod lleol wedi cytuno i ymgymryd ag ymgynghoriad i newid o'r trefniadau presennol, sy'n gofyn bod y Bwrdd neu'r Cabinet a phwyllgorau yn gytbwys yn wleidyddol.

62 Nid yw trefniadau craffu'r cyngor yn cynnig proses ddigon cyson i herio penderfyniadau'n effeithiol nac i gyfrannu at ddatblygu polisi. Nododd arolygiad Estyn o reolaeth strategol yn 2004 fod hwn yn faes i'w ddatblygu ac, er y bu rhywfaint o welliant, nid yw'r craffu presennol ar drefniadau addysg yn ddigon cadarn.

63 Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd da yn ôl llawer o'r argymhellion eraill o arolygiadau blaenorol. Yn benodol, mae Merthyr Tudful wedi:

- cael gwared ar lawer o leoedd gwag mewn ysgolion cynradd yn llwyddiannus;
- gwella ansawdd gwasanaethau ADY; ac
- wedi cynyddu ystod y cwricwlwm ar gyfer disgyblion o dan drefniant y llwybrau 14-19 oed.

64 Serch hynny, mae mwy i'r awdurdod ei wneud o hyd, fel lleihau nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion uwchradd.

Ymgynghori

65 Mae'r awdurdod yn ymgynghori'n dda â'i bartneriaid a'i randdeiliaid ar ddatblygiadau strategol, ariannol a gweithredol. Mae hyn wedi helpu'r awdurdod i wella ac i gyflawni ei amcanion, ac un o'r rhain oedd uno a chau ysgolion cynradd yn llwyddiannus.

66 Mae'r awdurdod hefyd wedi gwneud cynnydd da wrth gynyddu dylanwad plant, pobl ifanc a'u rhieni ar y gwasanaethau y maent yn eu cael. Er enghraifft, mae gwaith ar y cyd rhwng y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r sector gwirfoddol wedi ymestyn cefnogaeth eirioli i bobl ifanc. Yn ogystal, mae'r awdurdod wedi sefydlu swydd y Maer Ieuenctid ac wedi sefydlu Bwrdd Iau Diogelu Plant. Mae disgyblion wedi dylanwadu ar wella'u cyfleusterau toiledau ysgol yn llwyddiannus ac wedi rhannu eu barn am bresenoldeb gydag aelodau o grŵp adolygu craffu.

Rheoli perfformiad

67 Gwna aelodau etholedig a swyddogion ddefnydd da ar brosesau rheoli risg ac maent yn cysylltu'r rhain yn dda â chynllunio gwasanaethau, rheoli cyllidebau a monitro perfformiad. Mae polisïau priodol ar waith ar gyfer bodloni gofynion statudol a chynlluniau gweithredol a strategaethau ar gyfer pob maes gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o gynlluniau gweithredol a strategaethau'n gyflawn, neu ni chytunwyd arnynt eto.

68 Mae cyfarwyddwyr ac uwch-swyddogion yn cynnig adroddiadau clir, cryno i aelodaeth etholedig ar faterion addysg penodol. Mae aelodau etholedig yn monitro cynnydd yn effeithiol mewn amrywiaeth o gyfarfodydd gan gynnwys adolygiadau busnes chwarterol a byrddau uwch-reoli. Yn ogystal, mae cyfarwyddwyr ac uwch-swyddogion yn darparu adroddiadau gwybodaeth byr i'r Prif Weithredwr ac yn darparu adroddiadau i bwyllgorau craffu.

69 Mae'r awdurdod yn defnyddio system taenlen o 'Gynlluniau Strategol Allweddol' a 'Phecynnau Cymorth Unigol ar gyfer Cynllunio Gweithredu' sy'n galluogi monitro cynnydd cynlluniau gweithredol a chynlluniau strategol trwy un system sy'n cael ei defnyddio'n helaeth. Fodd bynnag, ni chaiff y system ei defnyddio at y diben gorau eto. O ganlyniad, nid yw'r gwaith cyffredinol ar fonitro cynnydd yn erbyn cynlluniau strategol allweddol yn ddigon clir, cadarn na chyson.

Trefniadau partneriaeth

70 Mae gwaith partneriaeth effeithiol iawn sy'n hyrwyddo blaenoriaethau addysg yn dda. Mae'r cysylltiadau rhwng partneriaethau statudol fel y Bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn effeithiol ac maent yn sicrhau bod blaenoriaethau addysg allweddol yn cael eu rhannu gyda darparwyr, a'u bod yn llywio cynllunio gwasanaethau ar lefel is. Mae'r ethos hwn o weithio'n gadarn mewn partneriaeth yn cynnig sylfaen gref ar gyfer gwelliant parhaus.

71 Hefyd, mae gan Ferthyr Tudful drefniadau partneriaeth da gydag awdurdodau lleol eraill. Mae wedi rhoi gweithio effeithiol ar y cyd a rhannu gwasanaethau ar waith i fynd i'r afael â materion addysg cyffredin. O ganlyniad, mae'r awdurdod yn elwa ar ddarbodion maint gwell ac ystod ehangach o arbenigedd trwy gymryd rhan mewn amrywiaeth o wasanaethau a rennir ag awdurdodau lleol eraill. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau gwella ysgolion, hyfforddiant aelodau etholedig, cymorth addysgol i Blant sy'n Derbyn Gofal[4] a'r gwasanaeth seicoleg addysg a phlant.

Defnyddio adnoddau

72 At ei gilydd, mae gwaith monitro cyllidebau a rheolaeth ariannol ar gyfer y gwasanaethau addysg yn dda. Ni fu unrhyw amrywiadau arwyddocaol o'r gyllideb dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Er bod y gyllideb addysg net wedi cynyddu'n arafach na'r cyfartaledd yng Nghymru dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r awdurdod wedi bod yn rhagweithiol wrth geisio cyllid allanol, a derbyniodd lefelau uwch na'r cyfartaledd o incwm grant. Mae lefel y dirprwyo i ysgolion yn uchel ac mae cyllidebau ysgol unigol uwchlaw'r cyfartaledd.

73 Dim ond dwy ysgol oedd â gweddill negyddol dros y tair blynedd diwethaf a dim ond am gyfnodau byr yn unig fu'r rhain. Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion lefelau boddhaol o gronfeydd wrth gefn, ond mae gan leiafswm o ysgolion wargedion sy'n fwy na 10% o'u cyllideb. Mae'r awdurdod wedi gofyn yn briodol am esboniad o'r gwargedion hyn ac wedi gofyn i ysgolion esbonio'r gwarged a, lle bo'n briodol, darparu cynlluniau ar gyfer gostwng y gwarged.

[4] Mae'r rhain yn blant y mae gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb rhiant cyfreithiol amdanynt. Caiff y term ei ddefnyddio i ddisgrifio'r holl blant sy'n destun gorchymyn gofal, neu sy'n cael llety ar sail gwirfoddol am fwy na 24 awr.

74 Mae'r awdurdod wedi datblygu cynllun ariannol tymor canol ac mae'n disgwyl cyfnod o ostyngiadau termau real mewn gwariant. Mae is-grŵp 'arbedion effeithlonrwydd' o'r Fforwm Cyllidebau Ysgolion wedi cael ei sefydlu er mwyn helpu i nodi arbedion ac i gyfrannu at raglen effeithlonrwydd corfforaethol. Mae'r rheolaeth ariannol dda wedi cyfrannu at hyder ac ymddiriedaeth rhwng yr awdurdod ac ysgolion.

75 Mae'r awdurdod wedi datblygu llawer o drefniadau sy'n gwella'i allu ac sy'n cyfrannu at werth am arian. Fodd bynnag, nid yw prosesau i arfarnu ansawdd, gwerth am arian a'r budd o bartneriaethau wedi'u datblygu'n dda ym mhob maes. Mae swyddogion yn rhoi trefniadau gwell, fel meini prawf llwyddiant cliriach mewn cytundebau lefel gwasanaeth, ar waith, a bydd y rhain yn bwysig yn ystod cyfnod ariannol sy'n gwaethygu.

76 Mae'r awdurdod wedi cyflwyno rhaglen gyfalaf o ad-drefnu ysgolion cynradd yn llwyddiannus, ond ar hyn o bryd, nid oes ganddo gynlluniau addas ar waith ar gyfer mwy o wariant cyfalaf i wneud ei holl ysgolion cynradd ac uwchradd yn addas at y diben. Mae'r cyfalaf sydd ar gael gan yr awdurdod i fynd i'r afael ag amrywiaeth o anghenion yn gyfyngedig. Mae ganddo gynlluniau ar gyfer rhywfaint o wariant cyfalaf dros y ddwy flynedd nesaf, ond nid yw wedi cyflwyno'n glir sut mae'n disgwyl diwallu'r gofynion cyfalaf llawn.

Cymorth ar gyfer gwella ysgolion

Perfformiad

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Rhagolygon ar gyfer gwella

Gradd 2: Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella'n dda, heb unrhyw rwystrau pwysig

77 Mae'r berthynas weithredol a'r partneriaethau rhwng y Gwasanaeth Plant Integredig (GPI), y Gwasanaeth Oedolion Integredig (GOI) a'r ysgolion yn dda iawn. Mae arweinwyr a rheolwyr yn gweithio'n dda gydag ysgolion i flaenoriaethu, cynllunio a chyflwyno ystod o fentrau gwella ysgolion. O ganlyniad, mae canlyniadau perfformiad ysgolion yn dda o ran y gwerth sy'n cael ei ychwanegu at gyrhaeddiad isel y rhan fwyaf o ddisgyblion adeg mynediad i'r system ysgol. Ers 2007, bu tuedd gyffredinol at i fyny yng nghanlyniadau diwedd cyfnodau allweddol 1, 2 a 3. Yng nghyfnod allweddol 4, o 2006 i 2008, mae'r sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi cynyddu 33 phwynt ym Merthyr Tudful o gymharu ag 21 pwynt yn genedlaethol.

78 Mae prosesau da ar waith i fonitro, herio a chefnogi ysgolion ac i ymyrryd mewn unrhyw ysgolion sy'n peri pryder. Mae ysgolion yn gweithio'n dda gydag ymgynghorwyr cyswllt ac maent yn gwybod pa gymorth y gallant ei ddisgwyl er mwyn cyflawni targedau gwella ysgol cytûn. Caiff ysgolion eu hannog i ddatblygu prosiectau ar sail eu hanghenion er mwyn gwella safonau. Mae swyddogion yn hysbysu pob partner am gryfderau a gwendidau ysgolion unigol ac maent yn gweithio'n agos gydag ystod o asiantaethau ac awdurdodau lleol eraill i gynnal a chodi safonau.

79 Mae swyddogion yn sicrhau bod ysgolion yn meddu ar ystod eang o ddata da. Mae ymgynghorwyr yn cynnig cymorth a hyfforddiant da er mwyn helpu ysgolion i ddefnyddio'r data hwn yn dda. Mae hyn yn cynnwys gwaith effeithiol gyda chyrff llywodraethol i wella'u hymwybyddiaeth o gryfderau ac o feysydd i'w datblygu. Mae dadansoddi data'n ofalus yn galluogi ysgolion i arfarnu eu cynnydd dros gyfnod ac i gymharu eu perfformiad ag ysgolion o gefndiroedd tebyg.

80 Mae'r rhaglen o ymweliadau gwella ysgolion wedi'i chynllunio'n dda ac mae'r gwaith ar fonitro hunanarfarnu a chynllunio datblygiad ysgolion yn dda. Mae adroddiadau clir o ymweliadau ag ysgolion yn gwneud cofnod o'r materion a drafodwyd ac yn rhoi arwydd o'r ffordd ymlaen. Mae hyn yn sicrhau her gyson ac effeithiol i ysgolion. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd a defnyddiol ar gyfer swyddogion er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gynnydd disgyblion.

81 Mae'r GPI yn cynnig ystod eang o hyfforddiant o ansawdd uchel i ysgolion drwy ei wasanaeth ymgynghorol, ESIS, a rhaglen graidd Merthyr Tudful o hyfforddiant a datblygu. Mae penaethiaid yn ymwneud yn agos â'r broses gynllunio ac mae trefniadau'n mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn dda. Mae partneriaeth ag awdurdodau eraill wedi gwella'r ystod o gyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ar gyfer ysgolion. Er bod yr awdurdod yn arfarnu hyfforddiant a mentrau, nid yw'r arfarniadau hyn yn canolbwyntio'n gyson ar feini prawf llwyddiant cytûn i nodi'r effaith ar gyflawniad disgyblion. Mae hyn yn golygu na all yr awdurdod asesu'n gywir pa hyfforddiant neu fentrau sy'n cael yr effaith fwyaf ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion.

82 Mae cefnogaeth dda ar gyfer llythrennedd a rhifedd ac mae strategaethau effeithiol ar waith i wella medrau llefaredd bechgyn. Mae'r GPI yn targedu'r strategaethau hyn yn dda ar ysgolion penodol. Mae'r grŵp strategaeth TGCh yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y cymorth technegol a chwricwlwm i ysgolion ac mae traean o ysgolion wedi cyflawni Marc Ansawdd TGCh BECTA. Mae cynlluniau ymyrryd wedi'u cynllunio dda ar gyfer gwella medrau sylfaenol disgyblion. Mae'r rhain yn cael effaith arbennig o gadarnhaol ar wella lefelau darllen.

83 Mae cymorth a hyfforddiant o ansawdd uchel ar gyfer gweithredu'r Cyfnod Sylfaen. Mae hyfforddiant i staff ar lefel gynradd yn helpu i sicrhau bod parhad a dilyniant i gyfnod allweddol 2. Mae ystod o adnoddau dwyieithog o ansawdd da yn cefnogi'r ddarpariaeth yn dda. Mae tîm y Cyfnod Sylfaen yn rhoi cymorth o ansawdd uchel i blant ifanc iawn drwy gysylltiadau agos ag ystod o bartneriaid. Yn ogystal, mae ystod helaeth o raglenni teuluol yn gwella ymgysylltiad rhieni â dysgu plant.

84 Mae cefnogaeth ar gyfer datblygiad Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith a dwyieithrwydd wedi'i chynllunio'n dda yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 1. Mae Athrawon Bro yn cynnig lefelau effeithiol o gefnogaeth mewn ysgolion cynradd i hybu hyder a gallu athrawon i addysgu yn y Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw cefnogaeth ar gyfer Cymraeg ail iaith ar lefel uwchradd wedi'i datblygu cystal. Mae cefnogaeth i ddatblygu dwyieithrwydd yng nghyfnod allweddol 2 ac ar lefel uwchradd wedi'i thanddatblygu hefyd.

85 Mae'r rhwydwaith 14 i 19 oed yn gwneud cynnydd da wrth ehangu dewis a chyfleoedd i ddisgyblion drwy gydweithio'n agos â'r coleg addysg bellach lleol a darparwyr dysgu yn y gwaith. Mae'r pedair ysgol uwchradd wedi bodloni targedau darpariaeth cwrs 2010 Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ysgolion B ac C. Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd da wrth gyflawni argymhellion arolygiad ardal Mai 2007 o ansawdd y safonau a'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed. Mae cyfleoedd da i ddisgyblion gyfuno opsiynau cyffredinol a galwedigaethol ac mae'r holl ddisgyblion cyfrwng Saesneg yn gallu cyrchu'r ddewislen opsiynau lawn yn gyfartal. Mae opsiynau galwedigaethol wedi'u cysylltu'n dda ag anghenion rhanbarthol. Mae'r ystod ehangach o opsiynau galwedigaethol yn helpu i ostwng nifer y disgyblion sy'n gadael ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig.

86 Mae'r trefniadau pontio wedi'u datblygu'n dda ar draws pob cyfnod allweddol, yn enwedig ar gyfer plant ifanc iawn, drwy broffil gwaelodlin cyffredin. Mae swyddogion ac ymgynghorwyr yn gweithio'n agos gydag ysgolion i wella cywirdeb asesiadau'r cwricwlwm cenedlaethol. Mae partneriaeth waith dda yn datblygu rhwng y ddwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg a'u hysgol uwchradd fwydo mewn awdurdod cyfagos. Mae hyn yn helpu i wella'r cysylltiadau ar gyfer disgyblion Cymraeg iaith gyntaf.

87 Rhoddir blaenoriaeth uchel i hyrwyddo lles. Mae'r cymorth a'r arweiniad i ysgolion mewn addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh), y fenter ysgolion iach a datblygiad addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDF) oll yn dda. Mae partneriaeth dda rhwng yr awdurdod ac asiantaethau iechyd i gefnogi'r mentrau hyn.

88 Mae'r gwasanaeth cerddoriaeth ar gyfer ysgolion yn dda ac mae gweithgareddau allgyrsiol yn cyfoethogi profiadau disgyblion. Mae'r gwasanaeth llyfrgell yn gyfleuster allgymorth da sy'n targedu'r grwpiau hynny o ddisgyblion sy'n annhebygol o ddefnyddio cyfleusterau llyfrgell traddodiadol yn effeithiol.

89 Mae cydweithio effeithiol iawn y tîm AGChY â swyddogion Campau'r Ddraig a'r gwasanaethau hamdden yn cyflawni canlyniadau rhagorol ar gyfer disgyblion. Mae hyn i'w weld yng ngallu disgyblion i hunanarfarnu eu perfformiadau eu hunain a pherfformiadau pobl eraill. Mae cyfranogiad disgyblion mewn gweithgareddau corfforol wedi cynyddu'n sylweddol o ganlyniad uniongyrchol i'r rhaglen hon.

90 Mae strategaethau ysgolion bro wedi'u datblygu'n dda ac wedi'u cysylltu'n briodol â'r blaenoriaethau yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc a'r Cynllun Corfforaethol. Mae'r holl ysgolion yn arfarnu prosiectau yr ymgymerwyd â nhw yn ofalus. Cafodd ystod eang o fentrau eu cefnogi ar draws 15 o ysgolion y llynedd. Mae'r rhain yn dechrau cael effaith gadarnhaol mewn rhai ardaloedd o'r Fwrdeistref Sirol wrth i'r gymuned ymgysylltu'n fwy ag ysgolion.

91 Mae cyfleoedd datblygu da ar gyfer arweinwyr a rheolwyr. Mae darpar reolwyr canol ac uwch-reolwyr yn mynychu cyrsiau achrededig trwy gysylltiadau â sefydliadau addysg uwch, fel Prifysgol Abertawe. O ganlyniad i gefnogaeth i raglenni cenedlaethol ar gyfer arweinwyr ysgol, ceir cyfleoedd da am ymchwil gweithredol. Caiff rhaglenni cwrs a hyfforddiant eu haddasu'n dda i fodloni anghenion unigol arweinwyr ysgol.

92 Mae'r cymorth i lywodraethwyr yn dda. Mae rhaglen hyfforddiant llywodraethwyr sydd wedi'i chynllunio'n dda, ac mae'n adlewyrchu blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae ysgolion yn cael hyfforddiant unigol os oes ei angen a gall llywodraethwyr fynd at swyddogion yn yr awdurdod am gymorth a chyngor o ansawdd uchel yn hawdd.

93 Mae pob ysgol yn ymuno â chytundeb lefel gwasanaeth ESIS ar gyfer prynu cymorth ar gyfer gwella ysgolion. Mae'r cytundeb yn sicrhau darbodion maint i'r awdurdod a mynediad i ystod eang o hyfforddiant o ansawdd uchel ar gyfer ysgolion. Mae Arolwg Canfyddiadau Ysgolion 2009 yn cadarnhau lefelau uchel o foddhad yn y gwasanaethau gwella ysgolion sy'n cael eu darparu.

Hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a lles

Perfformiad

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Rhagolygon ar gyfer gwella

Gradd 2: Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella'n dda, heb unrhyw rwystrau pwysig

94 Mae'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc a Chynllun y Gwasanaeth Plant Integredig yn dda o ran nodi blaenoriaethau cynhwysiad cymdeithasol. Mae ymrwymiad helaeth i sefydlu partneriaethau effeithiol ar draws cyfarwyddiaethau ar lefel weithredol. Mae hyn yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer gwella mwyfwy ar y gwasanaethau cynhwysiad yn yr awdurdod.

95 Mae gweithdrefnau da gan GPI a GOI ar gyfer gweithio gyda'i gilydd a rhannu gwybodaeth am blant sy'n derbyn gofal. Mae trefniadau effeithiol ar gyfer monitro presenoldeb, cyrhaeddiad a chynnydd addysgol plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal sydd wedi'u gosod y tu allan i'r sir. Caiff adroddiadau perthnasol eu cyflwyno i Grŵp Rhianta Corfforaethol yr awdurdod.

96 Mae tîm Cymorth Addysg plant sy'n derbyn gofal yn cynnig cymorth academaidd, pontio a bugeiliol da. Mae perfformiad plant sy'n derbyn gofal yn gwella'n raddol ar draws y cyfnodau allweddol. Enillodd bob plentyn sy'n derbyn gofal gymhwyster cydnabyddedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 yn 2008-2009. Mae defnydd da ar gyllid grant Rhagori wedi darparu cymorth addysgol ychwanegol i blant sy'n derbyn gofal sy'n ddisgyblion cyfnod allweddol 4 ac ar gyfer targedu darpar bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

97 Mae polisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant cynhwysfawr ar waith gan GPI a GOI. Mae'r holl aelodau staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant yn ymgymryd â hyfforddiant priodol. Mae'r BDPLl yn sicrhau hyfforddiant rhyngasiantaeth o ansawdd da i holl staff uwch dynodedig mewn ysgolion er mwyn diweddaru eu gwybodaeth a'u medrau. Mae'r awdurdod hefyd wedi sefydlu BDPLl iau i hyrwyddo cyfranogiad pobl ifanc ac i'w cynnwys yn weithgar wrth ddiogelu eu hunain.

98 Mae mentrau da gan yr awdurdod sydd wedi'u hanelu at fynd i'r afael â bwlio a chefnogi ymddygiad cadarnhaol. Yn ddiweddar, mae'r gwasanaethau wedi diwygio'r canllawiau aflonyddu ar sail hil a'r polisi gwrth-fwlio. Bydd y rhain yn helpu ysgolion i fonitro digwyddiadau perthnasol yn fwy effeithiol ac i nodi meysydd i'w datblygu.

99 Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg a Phlant yn cynnig cymorth effeithiol i ddisgyblion sy'n agored i niwed ac i droseddwyr ifanc. Mae'r gwasanaeth cwnsela ar gael i bob ysgol uwchradd ac mae hyn ar flaen y gad o ran arfer dda. Mae Swyddogion Lles Addysg yn cynnig cymorth bugeiliol da i ddisgyblion sydd â Saesneg yn Iaith Ychwanegol (SIY), plant Sipsi-Deithwyr, disgyblion sydd wedi'u gwahardd a throseddwyr ifanc.

100 Yn gyffredinol, mae'r awdurdod yn dadansoddi effaith mentrau targedig ar bobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, nid oes systemau ar waith eto i ganiatáu'r awdurdod i fonitro cyrhaeddiad a chyflawniad pob grŵp o blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed yn effeithiol.

101 Mae'r awdurdod wedi nodi bod gostwng absenoldeb yn Risg Gorfforaethol i'r Cyngor ac yn flaenoriaeth ar gyfer gwella. Mae strategaeth y GPI yn cael effaith arwyddocaol ar bresenoldeb. Mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi cynyddu'n gyson o 89.0% yn 2006 i 90.8% yn 2009. Mae'r gwelliant hwn ar raddfa gynt nag yng Nghymru yn ei chyfanrwydd. Fodd bynnag, er bod presenoldeb mewn ysgolion cynradd wedi gwella, mae hyn yn arafach na'r gyfradd mewn ysgolion uwchradd.

102 Mae'r Grŵp Presenoldeb Uwchradd yn cynnwys pob ysgol uwchradd mewn datblygu mentrau effeithiol. Mae'r Grŵp Presenoldeb a Lles Disgyblion yn hwyluso cyfraniad amlasiantaeth tebyg. Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn dadansoddi data am bresenoldeb yn dda. Mae'n targedu adnoddau yn effeithiol ac yn cynhyrchu adroddiadau monitro ar gyfer ysgolion yn rheolaidd.

103 Mae cyfradd y gwaharddiadau parhaol mewn ysgolion uwchradd er 2006 yn isel o gymharu â Chymru yn ei chyfanrwydd. Ni chafwyd unrhyw waharddiadau parhaol yn y sector cynradd dros yr un cyfnod.

104 Mae cyfraddau'r gwaharddiadau cyfnod penodol o bum niwrnod neu lai o ysgolion uwchradd yn cynyddu. Bu cwymp mewn gwaharddiadau cyfnod penodol o chwe niwrnod neu fwy o ysgolion uwchradd yn 2008 ond maent yn parhau uwchlaw'r cyfartaledd yng Nghymru. Yn ddiweddar, mae'r awdurdod wedi diwygio ei bolisi gwaharddiadau a'i brotocol ar gyfer symudiadau rheoledig. Fodd bynnag, mae anghysondebau yn y modd y mae ysgolion yn cymhwyso gweithdrefnau ac arweiniad yn aml yn cyfyngu ar effaith mentrau'r awdurdod.

105 Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg a Phlant a'r Tîm Cymorth Ymddygiad yn rhoi cymorth parod i ysgolion ar gyfer rheoli ymddygiad. Mae'r cymorth da iawn hwn yn helpu i ysgolion nodi ymddygiad heriol yn fwy effeithiol ac yn eu helpu i roi strategaethau ar waith i fynd i'r afael ag ef.

106 Caiff darpariaeth ar gyfer disgyblion sydd wedi'u gwahardd a phlant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol ei chydlynu'n brydlon ac yn effeithiol drwy

drefniadau llywio a chlirio'r awdurdod a thrwy'r Tîm Gwasanaethau Disgyblion. Mae cysylltiadau da gyda'r bartneriaeth 14-19 oed a'r Tîm Troseddau Ieuenctid (TTI). Mae'r cysylltiadau hyn yn cryfhau'r rhaglenni unigol ar gyfer disgyblion perthnasol yng nghyfnod allweddol 4. Caiff y ddarpariaeth ar gyfer plant y nodwyd eu bod yn blant mewn angen neu y'u cyfeiriwyd drwy weithdrefnau amddiffyn plant ei chydlynu'n effeithiol iawn drwy'r Grŵp Cyfeirio Amlasiantaeth (MARG).

Anghenion dysgu ychwanegol

Perfformiad

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Rhagolygon ar gyfer gwella

Gradd 1: Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn dda, gyda gwelliannau sylweddol eisoes ar waith

107 Mae'r awdurdod yn darparu cyngor a chymorth o ansawdd da i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Yn gyffredinol, mae disgyblion ym mhob ystod oedran yn gwneud cynnydd da mewn safonau, dysgu ac ymddygiad.

108 Mae Canolfannau Adnoddau Dysgu (CADau) mewn ysgolion prif ffrwd yn caniatáu i ddisgyblion sydd ag ystod eang o ADY gael mynediad i addysgu arbenigol ac i weithio gyda'u cymheiriaid mewn dosbarthiadau prif ffrwd. Hefyd, mae gan yr awdurdod ysgol arbennig ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion mwy cymhleth. Mae adroddiadau arolygu'n dangos bod yr ysgol arbennig a'r CADau yn cynnig lefel dda o wasanaeth i ysgolion ar gyfer eu disgyblion.

109 Mae dwy uned cyfeirio disgyblion (UCD) sy'n darparu ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd sydd ag amrywiaeth o anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Nid oes digon o ddisgyblion cyfnod allweddol 4 yn dychwelyd i'w hysgolion prif ffrwd ac, at ei gilydd, nid yw'r cwricwlwm yn ddigon eang, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4 lle nad yw'n talu sylw digonol i graidd 14-19 oed Llywodraeth Cynulliad Cymru.

110 Mae'r awdurdod yn bodloni anghenion Deddf AAA ac Anabledd (2001) ac mae'n gwneud cynnydd da wrth sicrhau bod ysgolion yn hygyrch i blant a phobl ifanc anabl.

111 At ei gilydd, mae ansawdd y datganiadau o anghenion addysgol arbennig a'r dogfennau adolygu blynyddol yn dda ac mae'r wybodaeth i rieni yn glir. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, bu cyfran y datganiadau a gwblhawyd o fewn 26 wythnos ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru ac roedd yn chwarter uchaf yr awdurdodau yng Nghymru. Mae swyddogion yn monitro cynnydd yr holl ddisgyblion sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig (AAA) yn dda, gan roi blaenoriaeth arbennig i ddisgyblion sy'n symud rhwng cyfnodau allweddol a'r rheiny sy'n cael eu gosod y tu allan i'r sir.

112 Mae nifer y disgyblion sy'n cael eu cyfeirio gan ysgolion am asesiad statudol wedi disgyn yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Y rheswm dros hyn yw bod ysgolion prif ffrwd yn derbyn mwyfwy o gyfrifoldeb am fodloni anghenion disgyblion heb droi at ddatganiad, a hefyd oherwydd y cymorth a'r arweiniad effeithiol y mae swyddogion a seicolegwyr addysg yn eu rhoi i ysgolion.

113 Am y pedair blynedd diwethaf, mae cyfran y disgyblion sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig wedi bod yn isel, tua 2%, o'i chymharu â chyfartaledd Cymru gyfan, sef tua 3%. Mae'r cyngor yn addysgu cyfran gymharol uchel o ddisgyblion sydd â datganiadau AAA yn yr ysgol arbennig neu mewn dosbarthiadau arbennig mewn ysgolion prif ffrwd, a chyfran isel gyfatebol mewn dosbarthiadau arferol mewn ysgolion prif ffrwd.

114 Mae cyfathrebu da rhwng swyddogion ADY, cydlynwyr anghenion addysgol arbennig (cydlynwyr AAA) ac ysgolion. O ganlyniad, mae gwaith cynllunio a chyflwyno cymorth i ddysgwyr sydd ag ADY yn gyson â gwaith yr awdurdod ar hyrwyddo cynhwysiad a chodi safonau ar gyfer pob dysgwr. Mae pennaeth y gwasanaeth yn cynnig arweinyddiaeth o ansawdd uchel. Mae swyddogion ar bob lefel yn dangos dealltwriaeth dda o nodau'r gwasanaeth, ac ymrwymiad iddynt.

115 Mae nodweddion arbennig yn perthyn i ansawdd y gweithio ar y cyd rhwng swyddogion yn y Gwasanaeth Plant a'r Gwasanaeth Oedolion Integredig, a'u gweithio ar y cyd â phartneriaid perthnasol eraill. Mae eu gwaith mewn grwpiau amlasiantaeth yn cyfrannu'n sylweddol at sicrhau bod darpariaeth o ansawdd da'n cael ei gyflwyno'n brydlon i fodloni anghenion unigol disgyblion, yn enwedig i'r rheiny sydd â'r anghenion mwyaf difrifol a brys. Mae gan bob grŵp rôl briodol wrth reoli darpariaeth sy'n ategu gwaith y grwpiau eraill yn dda iawn.

116 Bu gwelliannau arwyddocaol, diweddar yn y trefniadau ar gyfer nodi ac asesu anghenion plant cyn oedran ysgol ac ar gyfer ystyried eu hanghenion addysgol wrth iddynt nesáu at oedran ysgol.

117 At ei gilydd, mae timau ac ymgynghorwyr arbenigol yn rhoi cymorth da i blant a phobl ifanc unigol, eu teuluoedd a'u hysgolion. Maent yn gweithio'n agos ag ysgolion i godi safonau ac i hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol disgyblion sydd ag anawsterau corfforol a dysgu.

118 Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg a Phlant yn cynnig cyngor a chymorth da i ddisgyblion, rhieni ac ysgolion. Mae lefel ac ansawdd y gwasanaeth wedi gwella'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac mae ysgolion bellach yn ei barchu'n fawr. Mae'r gwelliannau'n deillio'n bennaf o'r trefniadau effeithiol iawn ar gyfer gwasanaeth y seicoleg addysg a phlant ar y cyd ag awdurdod cyfagos.

119 Mae swyddogion ADY yn gweithredu ystod dda o fentrau sydd wedi'u hanelu at wella darpariaeth a chodi safonau yn dda. Mae swyddogion yn arfarnu'r mentrau mewn ysgolion peilot cyn rhannu arfer effeithiol gydag eraill. Enghraifft o hyn yw menter y cynllun addysg unigol (CAU).

120 Mae nifer o fentrau sydd wedi'u hanelu at hyrwyddo cynhwysiad disgyblion sydd ag ADY mewn ysgolion prif ffrwd. Er enghraifft, mae'r tîm cymorth ymddygiad o

athrawon ymgynghorol yn cynnig ymyrraeth a chymorth o ansawdd da ar draws yr ystod oedran ac mae'n gwella gallu ysgolion i gefnogi disgyblion sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae'r awdurdod yn cynyddu gallu ysgolion yn llwyddiannus i nodi a chefnogi disgyblion sydd ag anhwylder y sbectrwm awtistig. Mae'r fenter olaf hon yn cysylltu'n dda â gwaith allgymorth ar awtistiaeth, sy'n rhan o'r fenter Datgloi Potensial yn yr awdurdod[5].

121 Ni fu unrhyw apêl i Dribiwnlys AAA Cymru dros y blynyddoedd diwethaf. Ynghyd â'r nifer ostyngol o gyfeiriadau am asesiad statudol a chyfran isel y disgyblion sydd â datganiadau, mae hyn yn dangos bod yr awdurdod yn llwyddiannus o ran trafod â rhieni ac wrth ddod i gytundeb ar ddarpariaeth briodol ar gyfer eu plant. Mae grŵp ffocws o rieni disgyblion sydd ag anhwylder y sbectrwm awtistig yn cyflwyno cyfleoedd da am roi adborth ar ddarpariaeth, ond nid yw'r grŵp hwn yn cynrychioli rhieni disgyblion sydd ag ADYau eraill. Nid oes lefel uchel o hyder gan rai rhieni yn y gwasanaeth.

122 Trwy amrywiaeth o ddulliau, mae'r awdurdod yn monitro'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag ADY yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddiadau gofalus iawn o'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn adroddiadau arolygiadau Estyn o ysgolion, a chynnydd y disgyblion hyn.

123 Nid yw'r awdurdod yn defnyddio data'n ddigon da i goladu a dadansoddi gwybodaeth am effaith darpariaeth ar gyflawniad grwpiau penodol o ddisgyblion ADY. Mae'n casglu ystod eang o ddata am ddarpariaeth ADY, cyllid ysgol ar gyfer ADY a chynnydd a chyflawniad disgyblion. Mae swyddogion yn defnyddio hwn i fonitro disgyblion unigol ac agweddau ar waith ysgolion gyda disgyblion sydd ag ADY, ond ni chaiff y data ei ddefnyddio'n ddigon helaeth. Mae'r awdurdod wedi cyflawni llawer o waith yn datblygu system TG sy'n galluogi swyddogion i goladu a dadansoddi data. Mae cynlluniau cadarn i'r system fod ar waith yn y dyfodol agos.

124 Bu gwelliannau arwyddocaol mewn sawl agwedd ar y gwasanaeth ADY ers yr arolygiad diwethaf o'r gwasanaeth anghenion addysgol arbennig. Mae'r rhain wedi gwella'r ddarpariaeth ac wedi helpu i godi safonau ar gyfer disgyblion sydd ag ADY. Y rhai mwyaf nodedig yw datblygiad gwaith partneriaeth da iawn a'r gwelliannau sylweddol yn y gwasanaeth seicolegol addysg a phlant.

Mynediad a threfniadaeth ysgolion

Perfformiad

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Rhagolygon ar gyfer gwella

Gradd 2: Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn dda, heb unrhyw rwystrau pwysig

[5] Mae Datgloi Potensial Ysgolion Arbennig yn fenter sy'n cael ei hariannu gan grant Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Lleoedd ysgol

125 Mae gan yr awdurdod hanes da o reoli prosiectau ad-drefnu. Mae ei ragolygon o ofynion am leoedd ysgol wedi bod yn gywir. Mae wedi ailgyfrif capasiti ysgolion yn briodol gan ddefnyddio fformiwla Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ym mis Ionawr 2008, 14.8% oedd canran y lleoedd gwag yn mewn ysgolion cynradd, sydd islaw cyfartaledd Cymru sef 18.6%. Canran y lleoedd gwag mewn ysgolion uwchradd oedd 16.4%. Mae hyn yn agos iawn at gyfartaledd Cymru, sef 15.4%.

126 Mae'r awdurdod wedi cael gwared ar dros 600 o leoedd ysgolion cynradd ers 2005 ac, er gwaethaf gostyngiad yn nifer y disgyblion, llwyddodd i ostwng yn sylweddol lefel gyffredinol y lleoedd gwag mewn ysgolion cynradd. Mae'n un o wyth awdurdod lleol yn unig sydd wedi lleihau nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion cynradd dros y cyfnod rhwng 2001 a 2008. Canran y gostyngiad oedd y drydedd ganran uchaf yng Nghymru. Yn 2008 dim ond pedair ysgol gynradd â nifer sylweddol o leoedd gwag oedd gan Ferthyr ac mae'r awdurdod wedi pennu cynlluniau i fynd i'r afael â'r rhain.

127 Caeodd yr awdurdod un o'i ysgolion uwchradd yn 2005 a chafwyd gwared ar 700 o leoedd ysgol uwchradd dros y cyfnod o 2005 i 2009. Er gwaethaf hyn, roedd 4,149 o ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd ym Merthyr ym mis Ionawr 2008 yn erbyn capasiti o 4,965, gan greu nifer ormodol o 816 (16.4%) o leoedd. Dyma'r lefel wythfed uchaf o gapasiti cyfan heb ei lenwi yng Nghymru. Mae rhagolygon yr awdurdod yn awgrymu y bydd nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion uwchradd yn cynyddu ac yn codi i fwy na 1,500 erbyn 2014. Bydd nifer sylweddol o leoedd gwag mewn tair o'i bedair ysgol uwchradd. Mae'r awdurdod yn ystyried opsiynau ar hyn o bryd ar gyfer lleihau lleoedd gwag mewn ysgolion uwchradd.

128 Mae partneriaeth rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Phrifysgol Morgannwg yn ystyried opsiynau ar gyfer darparu addysg ôl-16 yn y dyfodol. Mae'r awdurdod yn aros am ganlyniad yr ystyriaethau hyn yn briodol cyn cynllunio unrhyw ad-drefnu sylweddol ar ysgolion uwchradd.

Cynllunio a chyfalaf rheoli asedau

129 Mae systemau cynllunio rheoli asedau ysgolion yr awdurdod yn dda. Mae ysgolion yn ymwneud yn uniongyrchol â chasglu gwybodaeth am gyflwr, addasrwydd a digonoldeb adeiladau ysgol. Defnyddir y wybodaeth hon yn effeithiol i bennu gofynion datblygu hirdymor ysgolion ac i lunio rhaglenni cynnal a chadw a gwella byrdymor ar gyfer adeiladau. Hefyd, mae ysgolion yn ymwneud yn uniongyrchol â blaenoriaethu gwaith adeiladu ac mae hyn yn arwain at berchenogaeth effeithiol ar raglenni cynnal a chadw a gwella adeiladau gan ysgolion.

130 Mae'r awdurdod wedi defnyddio Grantiau Gwella Adeiladau Ysgol yn dda i adeiladu ysgolion newydd ac i wella ysgolion eraill. Mae safon uchel wedi bod i ysgolion newydd a gwelliannau i adeiladau, a chafodd yr ysgolion eu cynnwys yn dda ym mhob cam. Mae'r awdurdod yn monitro perfformiad contractau adeiladu a chaiff contractau eu cyflwyno mewn pryd ac o fewn y gyllideb. Mae'r awdurdod yn rhoi ystyriaeth briodol i ofynion statudol gan gynnwys mynediad i bobl anabl, effeithlonrwydd ynni a chynaliadwyedd.

131 Mae'r awdurdod wedi ymroi'n briodol i sicrhau bod ei holl adeiladau ysgol yn addas at y diben erbyn 2016. Mae'n amcangyfrif bod angen buddsoddiad cyfalaf o fwy na £100 er mwyn bodloni'r nod hwn. Mae angen cynnal buddsoddiad mewn adeiladau ysgol, ond mae mwy o gynnydd yn ddibynnol ar yr awdurdod yn cael y cyllid cyfalaf angenrheidiol. Hyd yn hyn, mae'r awdurdod wedi bod yn ddibynnol iawn ar Grantiau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ni fu polisi o glustnodi arbedion effeithlonrwydd na derbynebau cyfalaf o werthu adeiladau ysgol diangen. Serch hynny, mae'r awdurdod wedi ymroi i gyflawni ei anghenion cyfalaf ac mae swyddogion yn parhau i chwilio am ffynonellau cyllid eraill ar gyfer prosiectau cyfalaf.

132 Mae'r awdurdod yn defnyddio cyd-gronfa i reoli gwaith cynnal a chadw arferol adeiladau ac mae ysgolion yn croesawu'r trefniant hwn. Mae gwaith da mewn partneriaeth rhwng GPI, Cynnal a Chadw Eiddo ac Ysgolion. Mae blaenoriaethu'r gwaith yn dryloyw a'r rheolaeth ar atgyweiriadau brys yn effeithiol.

Derbyniadau i ysgolion

133 Mae gweithdrefnau derbyn yn dda. Mae'r wybodaeth gynhwysfawr, glir i rieni yn gryno, yn hawdd ei deall ac ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r awdurdod yn cydgysylltu'n dda ag awdurdodau derbyn lleol eraill fel llywodraethwyr ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir a chynghorau cyfagos. Ni fu unrhyw apeliadau derbyn am nifer o flynyddoedd.

134 Hyd at naw mis yn ôl, nid oedd y Fforwm Derbyniadau wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd ac ni fu'n rhoi digon o arweiniad a chymorth effeithiol i randdeiliaid. Fodd bynnag, mae'n cyfarfod bob deufis erbyn hyn a rhoddwyd rhai tasgau allweddol priodol iddo i gefnogi gwelliant.

Cludiant o'r cartref i'r ysgol

135 At ei gilydd, mae trefniadau'r awdurdod ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol yn dda ac mae gan ysgolion feddwl mawr ohonynt. Mae'r polisi ar gludiant o'r cartref i'r ysgol yn glir ac yn fwy hael na'r hyn sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Mae'r awdurdod yn monitro safonau gwasanaeth a chyllidebau yn ofalus. Mae teledu cylch cyfyng a thywyswyr bws ar holl gerbydau cludiant o'r cartref i'r ysgol. Mae gyrwyr a thywyswyr cludiant o'r cartref i'r ysgol yn cael gwiriadau SCT yn rheolaidd.

136 Nid yw disgyblion sydd â hawl i gludiant am ddim yn cael unrhyw gefnogaeth wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau y tu hwnt i oriau ysgol.

Y blynyddoedd cynnar

137 Mae darpariaeth y blynyddoedd cynnar o ansawdd da. Er bod lefel isel o ofal plant yn y blynyddoedd cynnar, nid oes tystiolaeth bod galw sylweddol heb ei ateb. Fodd bynnag, mae'r awdurdod yn cydnabod bod diffyg ymwybyddiaeth ynghylch argaeledd darpariaeth ac mae'n mynd i'r afael â hyn.

138 Mae systemau effeithiol ar waith i fonitro ac arfarnu gwaith mewn lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir. Mae ansawdd cyffredinol yr hyfforddiant yn dda ac mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd wedi cynyddu lefelau ymholiadau yn sylweddol.

Gwasanaethau cymorth

Perfformiad

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Rhagolygon ar gyfer gwella

Gradd 1: Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn dda, gyda gwelliannau sylweddol eisoes ar waith

139 Mae'r berthynas rhwng penaethiaid, llywodraethwyr ysgol a'r awdurdod lleol yn rhagorol. Mae lefel uchel iawn o gydweithredu, sy'n arwain at ystod o ganlyniadau da. Mae Merthyr yn darparu gwybodaeth dda am y gwasanaethau y mae'n eu cynnig. Mae'n cefnogi ysgolion i ddewis gwasanaethau eraill os ydynt yn penderfynu eu defnyddio.

140 Mae'r gwasanaethau cymorth i ysgolion yn dda. Mae gan ysgolion feddwl mawr o ansawdd y gwasanaethau. Roedd y nifer fawr o ysgolion (95%) a gymerodd ran yn Arolwg Canfyddiadau Ysgolion 2009 wedi rhoi pob gwasanaeth yn y chwartel gyntaf neu'r ail chwartel. Mae'r awdurdod lleol a'r grwpiau rhanddeiliaid yn monitro'r gwasanaethau hyn yn dda.

141 Mae'r awdurdod lleol yn cynnig gwasanaethau cymorth i ysgolion drwy gytundebau lefel gwasanaeth (CLG) manwl iawn. Mae penaethiaid a llywodraethwyr yn monitro, yn arfarnu ac yn dylanwadu ar y gwasanaethau trwy Fforwm Cyllideb, sy'n effeithiol iawn. Mae ganddo hanes o sbarduno gwelliant, yn enwedig mewn gwasanaethau TGCh ac eiddo.

142 Mae tîm o swyddogion cymorth ysgol yn cysylltu cyrff llywodraethol â'r awdurdod lleol. Mae'r swyddogion cymorth yn uchel iawn eu parch. Maent yn glercod i gyrff llywodraethol ac yn rhoi hyfforddiant. Maent yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cael cyngor mwy manwl lle bo'i angen.

143 Mae ansawdd y wybodaeth ariannol sydd ar gael i ysgolion yn dda. Mae'r holl ysgolion cynradd ac uwchradd yn prynu drwy'r CLG cyllid. Mae'r swyddog cymorth yn cyfrifo'r proffil cyllidebol, gan ddefnyddio costau gwirioneddol staff ysgol. Mae'r awdurdod yn defnyddio system gyfrifo tair blynedd sy'n cyfrif am ragolygon niferoedd disgyblion.

144 Mae swyddogion cymorth yn rhoi cefnogaeth dda o ran rheoli cyllidebau. Maent yn cynnig hyfforddiant da i'r staff hynny mewn ysgolion sydd â chyfrifoldeb am gadw cyfrifon a monitro cyllidebau.

145 Mae maint gweddillion ysgolion o fewn y terfynau argymelledig yn y rhan fwyaf o ysgolion. Mae gan rai ysgolion wargedion sydd dros 10%. Mae'r awdurdod wedi llwyddo i ostwng nifer yr ysgolion â gwargedion gor-fawr o 11 ysgol i 5 ysgol (o 34). Yn yr un modd, mae'r awdurdod wedi llwyddo i ostwng nifer yr ysgolion mewn diffyg ariannol felly dim ond un ysgol oedd mewn diffyg ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2008/2009.

146 Mae'r awdurdod lleol yn darparu cymorth adnoddau dynol (AD) effeithiol i ysgolion drwy swyddogion yn yr adran AD corfforaethol sydd â gwybodaeth am ysgolion a thrwy'r swyddogion cymorth ysgol. Mae penaethiaid yn adrodd bod y system hon yn gweithio'n dda.

147 Mae'r awdurdod lleol wedi cydweithredu ag awdurdodau lleol eraill i sicrhau bod asiantaethau athrawon cyflenwi yn cydymffurfio â gwiriadau'r SCT. Mae wedi dosbarthu cyngor ar hyn i benaethiaid a llywodraethwyr. Mae swyddogion cymorth ysgol ac ymgynghorwyr yn rhoi cefnogaeth dda i ysgolion wrth recriwtio. Ar hyn o bryd, mae'r awdurdod yn diweddaru ei gyngor ar bersonél ar draws yr holl ystyriaethau cyflogaeth. Mae niferoedd athrawon, cynorthwywyr addysgu a gweithwyr cymorth eraill yn sefydlog. Mae un ysgol cyfrwng Cymraeg wedi cael anawsterau yn recriwtio pennaeth. Ychydig iawn o achosion tribiwnlys sydd wedi bod, er bod yr awdurdod yn defnyddio trefniadau disgyblu a gallu lle bo'n briodol. Mae undebau llafur yn canmol yr awdurdod am ei gysylltiadau diwydiannol, am ei barodrwydd i wrando ar feirniadaeth ac am ei ethos gofalgar.

148 Mae'r awdurdod lleol yn rhoi cymorth da i ysgolion wrth iddynt ddefnyddio TGCh. Mae'r holl ysgolion yn prynu'r gwasanaeth. Mae'r CLG yn rhoi cymorth gwybodaeth reoli a chymorth ar gyfer caffael, ynghyd â chymorth ar galedwedd a meddalwedd. Mae'r gwasanaeth yn cynnig hyfforddiant ar ddefnyddio System Rheoli Gwybodaeth Ysgolion (SIMS) Capita a hyfforddiant ar ddefnyddio TGCh ym meysydd y cwricwlwm. Mae'r gwasanaeth hwn wedi gwella'n sylweddol yn yr arolwg canfyddiadau ysgolion, o'r pedwerydd chwartel yn 2003 i'r chwartel cyntaf yn 2009. Dywedodd naw deg saith y cant o ysgolion bod y gwasanaeth yn dda neu'n dda iawn.

149 Mae gwefan yr awdurdod lleol, sy'n cael ei chynnal gan y gwasanaeth TGCh corfforaethol, yn dda ac yn rhoi amrywiaeth o wybodaeth ddefnyddiol i'r cyhoedd, gan gynnwys polisïau a chynlluniau addysg allweddol a gwybodaeth am ysgolion. Mae gwefan addysg dda, gyda deunydd cwricwlwm defnyddiol. Mae'r awdurdod yn agor y fewnrwyd gorfforaethol i ysgolion fel y gallant rannu gwybodaeth am amrywiaeth o faterion polisi a gwella cyfathrebu.

150 Mae'r gwasanaethau sy'n gysylltiedig ag eiddo yn dda. Mae'r awdurdod yn cyflwyno llinellau cyfrifoldeb clir am adeiladau. Mae Merthyr Tudful yn datganoli'r gyllideb cynnal a chadw adweithiol, ond mae'r holl ysgolion yn prynu o gyd-gronfa. Mae'r gwasanaeth yn darparu cynnal a chadw da ar frys ac amrywiaeth dda o hyfforddiant iechyd a diogelwch. Mae hefyd yn gwneud mân ddiweddariadau i eiddo. Mae'r gwasanaeth hefyd yn rhoi cyngor o ansawdd da i ysgolion ar faterion fel diogelwch a gweithdrefnau argyfwng.

151 Trwy wneud defnydd da o'r gyd-gronfa, mae'r awdurdod yn gallu monitro amgylchiadau'n rhagweithiol a sicrhau cydymffurfiad ag amrywiaeth o faterion.

152 Mae'r adran eiddo'n rhoi cyngor ar addasiadau a mân ddarnau o waith ac mae'r awdurdod yn rheoli prosiectau ar gyfer cynlluniau. Mae nifer o enghreifftiau o adeiladu ysgolion yn dda, fel yr adeilad ysgol newydd sy'n gynaliadwy'n ecolegol ar gyfer Ysgol Gymraeg Santes Tudful.

153 Mae gan yr awdurdod lleol wybodaeth gyfredol dda am gyflwr, digonolrwydd a chynaliadwyedd yr holl adeiladau ysgol. Mae wedi darparu'r data hwn i ysgolion. Mae rhai ysgolion o hyd yn cael eu diffinio gan yr awdurdod fel ysgolion mewn cyflwr gwael. Mae gan yr awdurdod gynlluniau ar waith I unioni problemau iechyd a diogelwch yn yr ysgolion hyn. Mae gwasanaethau eiddo wedi gwella yn yr arolwg canfyddiadau ysgolion o'r trydydd chwartel i'r chwartel uchaf a bellach mae 77% o ysgolion yn dweud bod y gwasanaeth yn dda neu'n dda iawn.

154 Mae'r gwasanaeth addysg yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol am brydau ysgol yn dda. Mae'r holl ysgolion yn defnyddio gwasanaeth arlwyo'r awdurdod. Mae Merthyr Tudful yn y chwartel uchaf ar gyfer cyfanswm y niferoedd sy'n cael prydau, fel y mesurwyd gan y Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cyhoeddus (APSE). Mae'r cyfraddau cyfranogiad yn y clybiau brecwast yn uchel.

155 Mae trefniadau priodol gan yr awdurdod er mwyn gwneud yn siŵr bod ceginau ysgol yn cyflawni eu dyletswyddau statudol o ran hylendid.

156 Mae'r gwasanaeth arlwyo wedi paratoi'n dda ar gyfer cyrraedd safonau maeth y llywodraeth. Mae'n mynd ati i ddod o hyd i ffyrdd o wella. Er enghraifft, bydd yn cynnal peilot o dalu â cherdyn electronig a dulliau talu biometrig yn ddiweddarach eleni. Mae wedi cynyddu'r niferoedd sy'n cael prydau ysgol am ddim. Mae'r rhaglen o adnewyddu ceginau wedi bod yn dda ac mae gan lawer o ysgolion eu cegin eu hunain ar eu safle.

157 Mae'r rhagolygon ar gyfer gwelliant yn narpariaeth gwasanaethau cymorth yr awdurdod yn dda iawn. Bu hanes da o welliannau sydd eisoes ar waith, yn enwedig ym maes TGCh, a gwasanaethau eiddo ac yn eglurder manylebau'r gwasanaethau hyn. Mae'r awdurdod yn gwrando'n dda ar randdeiliaid, yn ymateb i feirniadaeth ac yn gwella'i arferion lle bo angen.

Ymateb yr awdurdod lleol i ganfyddiadau'r adroddiad

Mae Gwasanaeth Addysg Lleol Merthyr Tudful yn ddiolchgar i'r tîm arolygu am yr ymagwedd agored a heriol a fabwysiadwyd yn ystod yr arolygiad. Rydym yn croesawu canfyddiadau'r arolygiad, sy'n nodi llawer o nodweddion da ond sy'n amlygu meysydd ar gyfer gwella hefyd.

Trwy weithio'n agos â'n cydweithwyr addysgu, llywodraethwyr ysgol, aelodau etholedig a'n sefydliadau partner amrywiol, mae Gwasanaeth Addysg Awdurdod Lleol Merthyr Tudful yn ymroi i wella ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ac i hyrwyddo dysgu effeithiol pellach. Ein nodau allweddol yw gwella cyfleoedd bywyd a sicrhau lles ein holl blant a phobl ifanc. Ein bwriad yw manteisio'n bwrpasol ar yr adroddiad arolygu hwn er mwyn parhau i wella'n perfformiad a chodi safonau ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Atodiad 1

Data perfformiad yr awdurdod lleol

Dyddiadau diweddaru mewn troednodiadau

Mae'r tabl canlynol yn dangos canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd â hawl i brydau ysgol am ddim ym Merthyr dros y tair blynedd diwethaf.

Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd â hawl i brydau ysgol am ddim			
	2007	**2008**	**2009**[6]
Merthyr Tudful	26.4%	24.6%	24.9%
Cymru	17.4%	17.0%	17.8%
Safle	22	22	21

(1=isaf)

Perfformiad ysgolion yn asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac mewn arholiadau cyhoeddus

Mae'r tablau canlynol yn cymharu canran y disgyblion ym Merthyr Tudful sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd[7] (DPC) yn asesiadau athrawon o'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng nghyfnodau allweddol 1, 2 a 3 dros y pedair blynedd diwethaf â chanlyniadau disgyblion ledled Cymru[8].

Cyfnod allweddol 1	**2007**	**2008**	**2009**
Merthyr Tudful	77.0%	75.0%	77.3%
Cymru	80.1%	80.7%	81.1%
Safle	17	21	21

Cyfnod allweddol 2	**2007**	**2008**	**2009**
Merthyr Tudful	69.2%	70.7%	77.3%
Cymru	74.1%	75.5%	77.0%
Safle	22	21	21

Cyfnod allweddol 3	**2007**	**2008**	**2009**
Merthyr Tudful	48.6%	52.1%	54.8%
Cymru	56.7%	59.6%	61.3%
Safle	21	20	21

[6] SDR 99/2009 Cyfrifiad Ysgolion 2009 – canlyniadau dros dro

[7] Mae'r Dangosydd Pwnc Craidd yn cynrychioli canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd. Lefel ddisgwyliedig y mwyafrif o ddisgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yw lefel 2, lefel 4 yng nghyfnod allweddol 2 a lefel 5 yng nghyfnod allweddol 3.

[8] Ffynonellau: Ystadegau Gwladol: SDR 145/2007, SDR 129/2008, SDR 126/2009 Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol o ddisgyblion 7, 11 a 14 oed: Cymru

Yng nghyfnodau allweddol 1, 2 a 3, mae perfformiad disgyblion yn ysgolion Merthyr Tudful yn asesiadau'r cwricwlwm cenedlaethol islaw cyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion wedi dilyn y lefelau disgwyliedig neu wedi bod yn well na'r lefelau hyn, o ystyried lefel y difreintedd cymdeithasol fel y mae canran y disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn ei dangos.

Mae'r tablau canlynol yn cymharu perfformiad disgyblion yn yr holl leoliadau a gynhelir ym Merthyr Tudful â pherfformiad disgyblion ledled Cymru mewn arholiadau allanol yng nghyfnod allweddol 4[9].

Canran y disgyblion a enillodd bum TGAU gradd A*-C neu fwy neu gymhwyster galwedigaethol cyfwerth	**2006**	**2007**	**2008**
Merthyr Tudful	43.3%	40.9%	40.2%
Cymru	53.8%	54.2%	55.8%
Safle	22	22	22

Canran y disgyblion a gyflawnodd drothwy lefel 1[10]	**2006**	**2007**	**2008**
Merthyr Tudful	dd/b	80.4%	82.3%
Cymru	dd/b	86.0%	86.8%
Safle	dd/b	22	21

Canran y disgyblion a gyflawnodd drothwy lefel 2	**2006**	**2007**	**2008**
Merthyr Tudful	dd/b	42.0%	45.8%
Cymru	dd/b	55.0%	58.0%
Safle	dd/b	22	22

Canran y disgyblion a gyflawnodd drothwy lefel 2 gan gynnwys pasio TGAU Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg	**2006**	**2007**	**2008**
Merthyr Tudful	dd/b	dd/b	33.7%
Cymru	dd/b	dd/b	45.6%
Safle	dd/b	dd/b	21

9 Ffynonellau: SDR 164/2006, Canlyniadau TGAU/CGCC a TAR Safon Uwch, Uwch Gyfrannol a TAAU yng Nghymru, 2006; SDR 184/2007(R), Canlyniadau TGAU/CGCC a TAR Safon Uwch, Uwch Gyfrannol a TAAU yng Nghymru, 2007; SDR 195/2008, Canlyniadau Arholiadau yng Nghymru 2007/2008

10 Mae'r dangosyddion 'trothwy' newydd yn cynrychioli swm o gymwysterau allanol cymeradwy yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. Mae'n cynnwys ystod ehangach o gymwysterau nag a ddefnyddiwyd yn flaenorol. Mae'r trothwy 'lefel 1' cyfwerth â phum TGAU gradd D-G. Mae'r trothwy 'lefel 2' cyfwerth â phum TGAU gradd A*-C.

Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach	2006	2007	2008
Merthyr Tudful	286.9	298.1	320.2
Cymru	335.4	343.9	356.0
Safle	22	21	21

Canran y disgyblion a enillodd y DPC yn CA4	2006	2007	2008
Merthyr Tudful	31.8%	28.2%	33.0%
Cymru	39.7%	40.0	44.4%
Safle	21	22	21

Canran y disgyblion 15 oed a adawodd addysg amser-llawn heb gymhwyster cydnabyddedig	2006	2007	2008
Merthyr Tudful	4.1%	1.3%	1.1%
Cymru	2.1%	1.7%	1.5%
Safle	21	7	9

Mae perfformiad ysgolion Merthyr Tudful yng nghyfnod allweddol 4 islaw cyfartaledd Cymru gyfan. Mae canran y disgyblion sy'n ennill pum gradd A*-C neu fwy adeg TGAU wedi dirywio ers 2006. Mae'r canran sy'n ennill trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg hefyd islaw cyfartaledd Cymru yn sylweddol, fel y mae DPC cyfnod allweddol 4.

Er hynny, roedd y sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog ym Merthyr Tudful wedi cynyddu dros 33 phwynt o 2006 i 2008 o gymharu â chynnydd o ychydig islaw 21 pwynt yn genedlaethol. Mae canran y disgyblion sy'n gadael ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig wedi dirywio'n sylweddol ers 2006 ac ar raddfa sylweddol uwch nag yng Nghymru gyfan. Ym Merthyr Tudful, roedd y dirywiad yn dri phwynt canran o gymharu â llai nag un pwynt canran yn genedlaethol. Mae hyn yn gwneud Merthyr yn un o'r naw awdurdod sy'n cyflawni orau o ran y dangosydd hwn.

Mae'r tablau canlynol yn dangos dosbarthiad ysgolion Merthyr Tudful yn Chwarteri Meincnod Prydau Ysgol am Ddim Cymru Gyfan[11] ar gyfer y Dangosydd Pwnc Craidd ym mhob cyfnod allweddol, ac ar gyfer dangosyddion cyfnod allweddol 4.

[11] Bob blwyddyn, caiff canlyniadau arholiadau a phrofion ysgol eu grwpio gyda'i gilydd yn ôl yr hawl i brydau ysgol am ddim. Mae pob grŵp o ysgolion yna'n cael ei rannu'n bedwar chwarter. Mae hyn yn caniatáu cymhariaeth rhwng ysgolion tebyg ar draws Cymru.



DPC Cyfnod allweddol 1

Canran yr ysgolion yn	Chwarter cyntaf	Ail chwarter	Trydydd chwarter	Pedwerydd chwarter
2006	32%	23%	23%	23%
2007	18%	50%	5%	27%
2008	27%	23%	23%	27%

DPC Cyfnod allweddol 2

Canran yr ysgolion yn	Chwarter cyntaf	Ail chwarter	Trydydd chwarter	Pedwerydd chwarter
2006	26%	26%	26%	22%
2007	22%	30%	22%	26%
2008	22%	22%	35%	22%

DPC Cyfnod allweddol 3

Canran yr ysgolion yn	Chwarter cyntaf	Ail chwarter	Trydydd chwarter	Pedwerydd chwarter
2006	25%	25%	50%	0%
2007	50%	0%	50%	0%
2008	25%	50%	25%	0%

DPC Cyfnod allweddol 4

Canran yr ysgolion yn	Chwarter cyntaf	Ail chwarter	Trydydd chwarter	Pedwerydd chwarter
2006	25%	50%	25%	0%
2007	25%	50%	25%	0%
2008	25%	25%	50%	0%

Wrth gymharu perfformiad ysgolion Merthyr Tudful yn 2008 â pherfformiad ysgolion tebyg yn y meincnodau prydau ysgol am ddim, mae'r perfformiad yng nghyfnod allweddol 1 yn gyffelyb, ond ychydig islaw'r cyfartaledd ar gyfer cyfnod allweddol 2. Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r perfformiad yn dda iawn o'i gymharu ag ysgolion tebyg, gyda pherfformiad cyfartalog yng nghyfnod allweddol 4.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gosod meincnodau ar gyfer perfformiad ar sail yr hawl i brydau ysgol am ddim, mewn ysgolion uwchradd a gynhelir yn unig.

	2006		2007		2008	
	Merthyr (Gwir)	Cymhariaeth meincnod ddisgwyliedig	Merthyr (Gwir)	Cymhariaeth meincnod ddisgwyliedig	Merthyr (Gwir)	Cymhariaeth meincnod ddisgwyliedig
DPC CA3	52	49	49	44	53	49
TGAU 5A*-C	44	42	42	41	47a	47
Sgôr pwyntiau cyfartalog TGAU	35	35	35	35	327b	318

a Trothwy lefel 2 yn 2008 b Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach yn 2008

Mae'r data yn y tabl yn wahanol i'r data a gyhoeddir mewn man arall yn yr adroddiad hwn gan fod y data hwn yn cyfeirio'n unig at y disgyblion mewn ysgolion prif ffrwd ac nid yw'n cynnwys disgyblion mewn UCDau, addysg amgen ac ysgolion arbennig.

Canran yr ymadawyr â Blwyddyn 11 sy'n parhau mewn addysg amser llawn

	2006		2007		2008	
Merthyr Tudful	72%	19eg	69.2%	22ain	73%	21ain
Cymru	75.7%		77.2%		79.2%	

Canran yr ymadawyr â Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

	2006		2007		2008	
Merthyr Tudful	7.3%	15fed	7.9%	16eg	7.8%	15fed
Cymru	6.4%		6.4%		7.1%	

Mae canran y disgyblion sy'n parhau mewn addysg amser llawn wedi gwella ers 2006 ond ar raddfa arafach na ffigur Cymru.

Mae canran y bobl ifanc ym Merthyr Tudful nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant uwchlaw cyfartaledd Cymru. Yn 2008 roedd Merthyr Tudful yn y pymthegfed safle o'r 22 ALl. O ystyried y lefelau difreintedd yn y fwrdeistref, mae'r lefelau nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn is nag y gellid ei ddisgwyl yn rhesymol.

Presenoldeb

Ysgolion cynradd

Canran y sesiynau ysgol a gollwyd oherwydd absenoldeb heb awdurdod			
	2006	**2007**	**2008**
Merthyr Tudful	0.9%	1.0%	1.0%
Cymru	1.0%	0.9%	0.9%
Safle	14	16	16

Canran y sesiynau hanner diwrnod a fynychwyd gan ddisgyblion			
	2006	**2007**	**2008**
Merthyr Tudful	91.3%	92.2%	92.2%
Cymru	92.5%	93.1%	93.3%
Safle	21	=20	21

Ysgolion uwchradd

Canran y sesiynau ysgol a gollwyd oherwydd absenoldeb heb awdurdod			
	2007	**2008**	**2009**
Merthyr Tudful	1.5%	1.8%	1.3%
Cymru	1.8%	1.8%	1.7%
Safle	11	11	= 9

Canran y sesiynau hanner diwrnod a fynychwyd gan ddisgyblion			
	2007	**2008**	**2009**
Merthyr Tudful	89.6%	90.6%	90.8%
Cymru	90.7%	91%	91%
Safle	20	=16	=14

Mewn ysgolion cynradd, mae'r lefelau presenoldeb islaw cyfartaledd Cymru ond maent wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf. Mae canran yr absenoldeb heb awdurdod ychydig dros ffigur Cymru gyfan ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf ac, yn 2008, roedd Merthyr Tudful yn yr unfed safle ar bymtheg o'r 22 awdurdod ar gyfer y dangosydd hwn.

Mewn ysgolion uwchradd, mae presenoldeb wedi gwella ychydig o dan ddau bwynt canran ers 2006, o gymharu â ffigur Cymru gyfan sef ychydig o dan un pwynt canran. Mae canran yr amser a gollwyd trwy absenoldeb heb awdurdod yn is na'r ffigur cenedlaethol dros y tair blynedd diwethaf, neu'n gyfwerth ag ef.

Gwaharddiadau

Gwaharddiadau parhaol o ysgolion uwchradd a gynhelir			
(cyfradd fesul 1,000 o ddisgyblion)	**2004-2005**	**2005-2006**	**2006-2007**
Merthyr Tudful	*	*	*
Cymru	1.9	1.2	1.0
Safle	.	.	.

Gwaharddiadau cyfnod penodol o bum niwrnod neu lai o ysgolion uwchradd a gynhelir			
(cyfradd fesul 1,000 o ddisgyblion)	**2005-2006**	**2006-2007**	**2007-2008**
Merthyr Tudful	61.3	72.2	75.0
Cymru	70.7	71.1	70.5
Safle	10	11	15

Gwaharddiadau cyfnod penodol o chwe niwrnod neu fwy o ysgolion uwchradd a gynhelir			
(cyfradd fesul 1,000 o ddisgyblion)	**2005-2006**	**2006-2007**	**2007-2008**
Merthyr Tudful	11.6	13.1	9.2
Cymru	9.0	9.0	7.7
Safle	16	19	15

* Ni ddangosir canlyniadau lle gallai eu cynnwys fod yn ddadlennol

Mae data'n dangos bod strategaethau da ar waith gan Ferthyr Tudful i sicrhau mai ychydig iawn o waharddiadau parhaol a fu dros y tair blynedd diwethaf. Ffigur Cymru gyfan ar gyfer 2006-2007 oedd 1%.

Fodd bynnag, mae nifer isel y gwaharddiadau parhaol wedi arwain at gynnydd yn nifer y gwaharddiadau tymor penodol o bum niwrnod neu lai, sydd wedi bod uwchlaw cyfartaledd Cymru am y ddwy flynedd diwethaf.

Gostyngodd nifer y gwaharddiadau chwe diwrnod neu fwy yn 2007/08, gan osod Merthyr Tudful yn y pymthegfed safle o'r 22 awdurdod.

Canlyniadau arolygiadau ysgol Estyn

Mae'r tabl canlynol yn dangos y graddau arolygu ar gyfer ysgolion a arolygwyd ym Merthyr Tudful yn ystod y cyfnod pedair blynedd o fis Medi 2005 i fis Mawrth 2009.

Canlyniadau arolygu, ALl Merthyr Tudful, 2005-2006 i 2008-2009								
2005-2006								
	Canran yr ysgolion ym mhob gradd ar gyfer pob CwA							
1	Gradd 1	40%	40%	60%	100%	60%	40%	60%
2	Gradd 2	20%	60%	20%	0%	40%	60%	40%
3	Gradd 3	40%	0%	20%	0%	0%	0%	0%
4	Gradd 4	0%	0%	0%	0%	0%	0%	0%
5	Gradd 5	0%	0%	0%	0%	0%	0%	0%
2006-2007								
	Canran yr ysgolion ym mhob gradd ar gyfer pob CwA							
1	Gradd 1	14%	29%	29%	43%	14%	14%	14%
2	Gradd 2	57%	43%	43%	57%	43%	29%	86%
3	Gradd 3	29%	29%	29%	0%	29%	57%	0%
4	Gradd 4	0%	0%	0%	0%	14%	0%	0%
5	Gradd 5	0%	0%	0%	0%	0%	0%	0%
2007-2008								
	Canran yr ysgolion ym mhob gradd ar gyfer pob CwA							
1	Gradd 1	17%	17%	33%	33%	33%	0%	50%
2	Gradd 2	67%	67%	50%	67%	50%	67%	33%
3	Gradd 3	17%	17%	17%	0%	17%	33%	17%
4	Gradd 4	0%	0%	0%	0%	0%	0%	0%
5	Gradd 5	0%	0%	0%	0%	0%	0%	0%
2008-2009								
	Canran yr ysgolion ym mhob gradd ar gyfer pob CwA							
1	Gradd 1	22%	33%	56%	56%	44%	33%	44%
2	Gradd 2	67%	56%	44%	44%	33%	44%	44%
3	Gradd 3	11%	11%	0%	0%	22%	22%	11%
4	Gradd 4	0%	0%	0%	0%	0%	0%	0%
5	Gradd 5	0%	0%	0%	0%	0%	0%	0%
Pob blwyddyn								
	Canran yr ysgolion ym mhob gradd ar gyfer pob CwA							
1	Gradd 1	22%	30%	44%	56%	37%	22%	41%
2	Gradd 2	56%	56%	41%	44%	41%	48%	52%
3	Gradd 3	22%	15%	15%	0%	19%	30%	7%
4	Gradd 4	0%	0%	0%	0%	4%	0%	0%
5	Gradd 5	0%	0%	0%	0%	0%	0%	0%

Canlyniadau arolygu ysgolion unigol Medi 2005 i Mawrth 2009

Allwedd i'r lliwiau a'r rhifau sy'n cael eu defnyddio yn y tabl:

1 Da gyda nodweddion rhagorol	2 Nodweddion da a dim diffygion pwysig	3 Nodweddion da'n gorbwyso diffygion	4 Rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig	5 Llawer o ddiffygion pwysig

Ysgol	CwA1	CwA2	CwA 3	CwA 4	CwA 5	CwA 6	CwA 7
Ysgol Gynradd Edwardsville	2	2	1	1	1	2	1
Ysgol Feithrin Y Gurnos	1	1	1	1	1	1	1
Ysgol Gynradd Gwaunfarren	3	2	2	1	2	2	2
Ysgol Gynradd Coed y Dderwen	3	2	3	1	2	2	2
Ysgol Santes Tudful	1	1	1	1	1	1	1
Ysgol Gynradd Bedlinog	2	2	2	2	2	2	2
Ysgol Gynradd Aloysius Sant	2	1	1	1	2	2	2
Ysgol Gynradd Babyddol Sant Illtyd	3	3	3	2	4	3	2
Ysgol Feithrin Treharris	2	2	2	2	3	3	2
Ysgol Gynradd Trelewis	1	1	1	1	1	1	1
Ysgol Gynradd Ynysowen	2	2	2	1	2	3	2
Uned Cyfeirio Disgyblion Merthyr Tudful	3	3	3	2	3	3	2
Ysgol Gymunedol Abercannaid	1	1	1	1	1	2	1
Ysgol Gynradd Gellifaelog	2	2	2	1	1	2	1
Ysgol Gynradd Pantysgallog	2	2	2	2	2	3	2
Ysgol Gynradd Babyddol y Santes Fair	2	2	2	2	2	2	2
Ysgol Uwchradd Afon Taf	3	3	3	2	3	3	3
Ysgol Uwchradd yr Esgob Hedley	2	2	1	2	2	2	1
Ysgol Fabanod Gwernllwyn	2	2	2	2	2	2	2
Ysgol Gynradd Heolgerrig	2	2	2	2	2	2	2
Ysgol Iau Brecon Road	2	1	1	1	2	2	2
Ysgol Fabanod Goetre	3	3	2	2	3	3	3
Ysgol Gynradd Mount Pleasant	2	2	2	2	3	3	2
Ysgol Feithrin Trefechan	1	1	1	1	1	1	1
Ysgol Gynradd Troed-y-rhiw	1	1	1	1	1	1	1
Ysgol Uwchradd Cyfarthfa	2	2	1	1	1	2	1
Ysgol Uwchradd Pen-Y-Dre	2	2	1	1	1	1	1

Mae hyn yn cynrychioli darlun cadarnhaol at ei gilydd. Mae canlyniadau arolygu ysgolion Merthyr yn dda yn bennaf neu'n dda iawn at ei gilydd.

Derbyniodd bron chwarter yr ysgolion radd 1 am safonau, derbyniodd bron traean ohonynt radd 1 am ansawdd yr addysgu a barnwyd bod arweinyddiaeth a rheolaeth traean ohonynt yn rhagorol.

Atodiad 2

Y proffil graddau

	Pa mor dda yw perfformiad yr awdurdod lleol?	A fydd perfformiad yr awdurdod lleol yn gwella?
Rheolaeth strategol	2	2
Cymorth ar gyfer gwella ysgolion	2	2
Hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a lles	2	2
Anghenion dysgu ychwanegol (ADY)	2	1
Mynediad a threfniadaeth ysgolion	2	2
Gwasanaethau cymorth	2	1

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Farrukh Khan AEM	Estyn	Arolygydd Cofnodol
Gerard Kerslake AEM	Estyn	Arolygydd Tîm
Rhona Edwards AEM	Estyn	Arolygydd Tîm
Iwan Roberts AY	Estyn	Arolygydd Tîm
Maldwyn Pryse	Arolygydd Ychwanegol ar Secondiad	Arolygydd Tîm
Nick Jones	Arolygydd Ychwanegol ar Secondiad	Arolygydd Tîm
Stephen Martin	Swyddfa Archwilio Cymru	Arolygydd Tîm
Alan Lowndes	Arolygydd Ychwanegol	Arolygydd Tîm
Michael Newman	Arolygydd Ychwanegol	Arolygydd Tîm
Robert Blewitt	Arolygydd Ychwanegol	Arolygydd Tîm
Gillian Jones	Arolygydd Ychwanegol	Arolygydd Tîm
Russell Ward	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot	Asesydd Cymheiriaid
Margaret Wagner	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	Enwebai